# Hunanasesu Perfformiad: Hydref 2024 - Mawrth 2025

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ein perfformiad yn erbyn themâu a meysydd llywodraethu ein Cynllun Corfforaethol rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym hefyd yn hapus i ddarparu’r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille, cysylltwch â’r Tîm Perfformiad a Gwella (mae’r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf).**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Mae arnom eisiau clywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r gwasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/arwyddio

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor yr Ifanc Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook Cyngor yr Ifanc neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

# Cynnwys

Canllaw cyflym i'n Fframwaith Rheoli Perfformiad ............................................................5

Crynodeb o'r Sefyllfa..............................................................................................................8

Nod 1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn. ........................................................9

Nod 2. Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd. .........22

Nod 3. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi, ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau..........................................................................................................32

Nod 4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy, priodol ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau. ...................................................................................53

Nod 5. Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo'n ddiogel. .....................62

6. Atodol - Swyddogaethau Llywodraethu..............................................................................78

7. Camau Gwella ....................................................................................................................93

8. Cloi.....................................................................................................................................94

## Canllaw cyflym i'n Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn seiliedig ar Ganlyniadau'n Cyfrif. Mae Canlyniadau'n Cyfrif wedi'i seilio o gwmpas y bedair gydran ganlynol:

1. **Canlyniad** - Nod yr ydym am ei gyflawni a fydd o fudd i bobl, y gymuned, neu'r sefydliad. Fel arfer, mae canlyniadau'n hirdymor ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.
2. **Dangosyddion** - Mesurau effaith sy'n cefnogi'r Canlyniad. Mae dangosyddion yn *arwydd* o ba mor agos yr ydym at gyflawni'r Canlyniad. Fodd bynnag, nid ydynt yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth. Mae mesurau boddhad yn fath o ddangosydd.
3. **Mesurau perfformiad** - Mesurau ymdrech sy'n cefnogi'r Dangosyddion a'r Canlyniad. Mae mesurau perfformiad yn dweud wrthym pa mor dda yr ydym yn gwneud gyda'r gweithgaredd yr ydym yn ei gyflawni. Maent yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth.
4. **Gweithgareddau**– Camau gweithredu, prosiectau neu raglenni gwaith a nodwyd i gefnogi'r Canlyniad. Maent yn cyflawni allbynnau a buddion yn y tymor byrrach i ganolig, gan gyfrannu ar y cyd at gyflawni'r Canlyniad tymor hwy.

### Targedau a Goddefiannau

- **Targedau** – Dylai ein targedau gynrychioli'n rhesymol ein huchelgais ar gyfer y mesur, gan fod yn realistig o fewn y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, e.e. cyllideb, capasiti, ac ati.
- **Goddefiannau** - Mae ein trothwy goddefiant yn cynrychioli'r pwynt lle mae angen ymyrraeth i wella ein perfformiad. Lle rydym wedi nodi **Dim Goddefiant**, mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod y targed yn cael ei gyrraedd.

Wrth ddatblygu fframwaith ein Cynllun Corfforaethol, rydym wedi ceisio'n rhagweithiol gynnwys mesurau a gyhoeddwyd yn genedlaethol y gallwn feincnodi ein hunain yn eu herbyn, gyda'n targedau a'n goddefiannau'n cael eu llywio gan ddata perfformiad chwartel uchaf neu ganolrif. Dynodir y rhain gyda **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**. Lle nad oes unrhyw fesurau na data ar gael y gallwn gymharu ein hunain yn rhesymol â nhw (naill ai'n genedlaethol neu drwy grwpio cymharol), byddwn yn datblygu mesurau lleol ac yn cymryd barn leol ar yr hyn yr ydym yn teimlo sy'n pennu perfformiad da neu wael yn rhesymol. Dynodir y rhain gyda **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**. Mewn rhai achosion, nid yw'n bosibl nac

yn briodol gosod targedau, ond mae'r mesurau eu hunain yn dal i gyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad.  Bydd y rhain wedi'u nodi fel **Cyfrif yn Unig**.

## Statws Perfformiad

Rydym yn defnyddio ymagwedd tri lliw - coch, oren, gwyrdd (COG) wrth fesur ein perfformiad a'n gweithgareddau. Ar gyfer diben yr adroddiad hwn mae ein hymagwedd i fesur prosiectau wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd, a hynny hefyd yn cyd-fynd ag adrodd ar ein system rheoli perfformiad (CAMMS). Pan fydd mesur yn cael ei nodi fel **Cyfrif yn Unig**, nid yw statws COG a dangosyddion o dueddiadau yn berthnasol.

### Ar gyfer mesurau

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu fod y targed wedi'i gyflawni.
- Mae statws **oren** yn golygu bod y perfformiad o fewn goddefiant i gwrdd â'i darged.
- Mae statws **coch** yn golygu bod perfformiad heb gyflawni ei darged a ddim o fewn goddefiant.

### Ar gyfer gweithgaredd (defnyddio methodoleg prosiect)

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu bod yr elfen hon ar y trywydd iawn.
- Mae statws **oren** yn golygu bod problem bosib wedi cael ei nodi.
- Mae statws **coch** yn golygu bod problem amlwg wedi'i nodi ac angen sylw.

## Disgrifiadau o dueddiadau

Mae ein hadroddiad yn cymharu'r pwynt data diweddar (sefyllfa derfynol) â'r cyfnod a oedd ar gael yn flaenorol. Mewn achos o fesurau bob chwe mis cronnus byddwn yn cymharu gyda'r un cyfnod (h.y. y mesurau canol blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau canol blwyddyn flaenorol, y mesurau diwedd blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau diwedd blwyddyn flaenorol). Nid yw'n disgrifio unrhyw symudiad neu newid yn y statws COG.

- Caiff **'Gwell'** ei ddefnyddio pan fo'r newid yn y canlyniad yn welliant. Pan mae canrannau neu niferoedd uwch yn ddymunol bydd y ffigwr yn uwch na'r ffigwr blaenorol.  Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.
- Mae **'yr un fath'** yn cael ei ddefnyddio pan na fydd newid yn yr alldro, gyda pherfformiad yn cyd-fynd â'r cyfnod blaenorol sydd ar gael.

- Mae **'gwaeth'** yn cael ei ddefnyddio pan fydd newid yn yr alldro yn dangos dirywiad. Pan y mae canrannau neu niferoedd is yn annymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol. Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.

## Crynodeb o'r Sefyllfa

Mae'r penodau isod yn darparu crynodeb o weithgaredd sydd wedi cymryd lle yn ystod Hydref 2024 i fis Mawrth 2025 sy'n cefnogi blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ac yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad yn erbyn swyddogaethau llywodraethu allweddol. Mae pob pennod yn cael ei gefnogi gan grynodeb o straeon newyddion sy'n berthnasol i'n perfformiad, crynodeb o eitemau wedi'u craffu neu gymeradwyo gan ein prif bwyllgorau a diweddariadau ar ein perfformiad yn erbyn mesurau a phrosiectau allweddol.  Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob thema isod yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu.  Mae gwerthuso camau gweithredu wedi cael ei bennu gan statws ein gweithgareddau trwy ddefnyddio ein methodoleg prosiect.

**1. Cyngor Gwydn**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**2. Yr Amgylchedd**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**3. Ffyniant a Dysg**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**4. Tai**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**5. Lles**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**6. Atodol – Llywodraethu**

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

# Nod 1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 1.

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 1.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Cynyddodd y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch o 12.04 yn 2023 i 2024 i 12.6 diwrnod yn 2024 i 2025, y canlyniad uchaf a gawsom yn y 6 blynedd diwethaf. Mae hyn yn unol â chynnydd mewn absenoldeb staff yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, gyda'r prif reswm dros absenoldeb yn parhau i fod yn straen, pryder ac iechyd meddwl; haint neu glefyd heintus; cyhyrysgerbydol; a thriniaeth ysbyty. Ym mron pob maes gwasanaeth, mae canran yr absenoldeb hirdymor (dros 4 wythnos) naill ai'n fwy neu'n hafal i absenoldeb tymor byr. Mae rheoli presenoldeb yn llawer mwy na delio â staff sy'n absennol, mae sgyrsiau rheolaidd ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol bwysig. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar fathau penodol o absenoldeb ac yn darparu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael.

Mae nifer y staff asiantaeth a reolir yn ganolog wedi gostwng ychydig rhwng Hydref a Mawrth, i lawr i 131 o 143 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Ar ddiwedd 2024 i 2025, roedd 80% o’r crybwylliadau yn y cyfryngau yn ymwneud â ni fel cyngor yn gadarnhaol neu’n niwtral, gan gynyddu o 76% yn hanner cyntaf y flwyddyn.

Saif balans ein Cronfa Gyffredinol fel cyfran o’r gyllideb net ar 2.4% ar ddiwedd 2024 i 2025, i fyny o 1% y flwyddyn flaenorol. Mae canran yr arbedion a ragwelwyd ac a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol sef 89%. Syrthiodd canran Treth y Cyngor a oedd yn ddyledus yn y flwyddyn ariannol a gasglwyd gennym ychydig islaw ein targed o 97%, gan gasglu 96.7% yn ystod 2024 i 2025. Mae hyn ychydig yn is na 97.1% y flwyddyn flaenorol, ond nid yw'r gostyngiad hwn yn anarferol yn y cyd-destun cenedlaethol a chyfradd casglu Conwy yw'r 4ydd uchaf yng Nghymru.

Mae trosiant ein staff ar gyfer 2024 i 2025 yn 8.6%, i lawr o 10.85% yn 2023 i 2024.

Rydym yn datblygu dangosydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gefnogi'r nod hwn. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar arolwg ymgysylltu blynyddol â budd-ddeiliaid. Byddwn hefyd yn

cyflwyno data arolwg staff ar ein Sgyrsiau Conwy a'n cynnig hyfforddiant yn ystod 2025 i 2026.

Ar hyn o bryd mae 115 o staff yn archwilio'r defnydd o offer digidol newydd i gefnogi eu gwaith.

### 1.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y dyddiau gwaith/sifftiau amcangyfrifedig fesul FTE a gollwyd oherwydd salwch – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed (amcangyfrif): 10.5; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 10.36 (amcangyfrif diwedd blwyddyn)<br>Oren<br>Gwell | 12.04<br>Coch<br>Gwaeth | 11.92 (amcangyfrif diwedd blwyddyn)<br>Coch<br>Gwaeth | 12.68<br>Coch<br>Gwaeth |
| Nifer y staff asiantaeth (a reolir yn ganolog) – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | Dim data | 143 | 149 | 131 |
| Canran y crybwylliadau yn y cyfryngau ynghylch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a oedd yn gadarnhaol neu'n niwtral - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 75%; Trothwy Goddefiant: 65%** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 75.75%<br>Gwyrdd<br>Da | 80%<br>Gwyrdd<br>Gwell |

### 1.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol fel cyfran o'r gyllideb net – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 5%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 1.0%<br>Coch<br>Amherthnasol | 2.4%<br>Coch<br>Gwell |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran yr arbedion a ragwelwyd ac a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 89.1%<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | 89.4%<br>Amherthnasol<br>Gwell |
| Canran Treth y Cyngor sy'n ddyledus yn y flwyddyn ariannol a gasglwyd gan y cyngor – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 97%; Trothwy Goddefiant: Chwartel Uchaf yng Nghymru** | 97.10%<br>Gwyrdd<br>Da | 96.70%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran y Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan y cyngor – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 97.5%; Trothwy Goddefiant: Chwartel Uchaf yng Nghymru** | 98.90%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 98.41%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Trosiant Staff (%) – **Cyfrif yn unig** | 10.85% | 8.66% |
| *Dangosydd Llais Budd-ddeiliaid – yn cael ei ddatblygu* | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 1.1.3. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y staff sy'n fodlon eu bod yn cael sgwrs reolaidd ac ystyrlon gyda'u rheolwr atebol – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 75%; Trothwy Goddefiant: 50%** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |
| Canran y staff sy'n fodlon bod yr hyfforddiant a gawsant drwy Academi Ddysgu Conwy yn ystod y flwyddyn wedi ychwanegu gwerth – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 75%; Trothwy Goddefiant: 50%** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |

### 1.1.4. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial – Nifer y defnyddwyr sy'n manteisio ar dechnoleg i wneud rolau'n fwy effeithlon – **Cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 115 |

## 1.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae yna ddeunaw gweithgaredd gwella wedi’u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae dau wedi'u cwblhau, mae 15 ar y trywydd iawn, ac mae un o fewn y goddefiant.

### 1.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Conwy Gynhwysol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae grŵp Llywio Conwy Gynhwysol yn symud ymlaen yn dda ac rydym yn canolbwyntio ar sut rydym yn ymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol. Mae angen i hyn symud ymlaen yn ofalus ac rydym yn gweithio gyda staff ar hyn.<br>Fel rhan o'n gwaith i wella cymhwysedd diwylliannol cydweithwyr, rydym eisoes wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu. Rydym wedi llwyddo i ennill pocedi bach pellach o incwm ychwanegol nad yw'n ailadroddus i gefnogi ein sesiynau ymwybyddiaeth, sy'n parhau i ddigwydd naill ai trwy fodiwlau e-ddysgu Diwylliant Hyfforddi neu drwy hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi cynnwys gwrth-hiliaeth, cyflwyniad i Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant, a gwrth-aflonyddu rhywiol.<br>Cawsom ein gwahodd i fynychu grŵp llywio Cyngor Sir Ddinbych i arddangos iddynt y gwaith rydym wedi'i ddatblygu hyd yn hyn, a chafodd hyn groeso da iawn.<br>Yn ystod Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant, lansiwyd arolwg staff i gynyddu ein data staff ynghylch nodweddion gwarchodedig. Fel rhan o'n dadansoddiad o'r adroddiad monitro cyflogaeth, byddwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu cefnogol y gallwn eu gweithredu ynghylch cyflogaeth pobl ag anableddau dysgu a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.<br>Rydym yn gweithio gyda’r Gwasanaeth Cyfleusterau i wella hygyrchedd yng nghyntedd Coed Pella, gan gynnwys newidiadau i oleuadau ac arwyddion yn ogystal â lliwiau cyferbyniol.<br>Mewn partneriaeth â thimau Cydlyniant Cymunedol, cynhaliwyd digwyddiad Diverse together Gogledd Cymru ar gyfer cymunedau amrywiol yn Venue Cymru ym mis Ebrill. Roedd yn gyfle i grwpiau sydd wedi'u hymylu rannu eu profiad o'r Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, o ymgysylltu â'u cyngor lleol, i dderbyn gofal iechyd yn eu hysbyty lleol, i ryngweithio â'r heddlu lleol. |
| Strategaeth Pobl | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyhoeddwyd y Strategaeth Pobl ym mis Mawrth 2023. Gosododd y strategaeth ein blaenoriaethau allweddol i barhau i gefnogi a datblygu staff i wneud gwahaniaeth i bobl Conwy a chyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Cabinet ym mis Ebrill 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Adolygiad o’r Cynllun Corfforaethol | Cwblhawyd | Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol diwygiedig gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2025. Mae ar gael i'w weld ar-lein yn www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol. Rydym hefyd wedi datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun Corfforaethol diwygiedig, sy'n sail i'r Adroddiad Hunanasesu Perfformiad hwn. |
| Cynllun Gwytnwch | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cymeradwywyd y Cynllun Gwytnwch gan y Cabinet ym mis Medi. Darparwyd hyfforddiant ariannol i dros 200 o ddeiliaid cyllideb. Sefydlwyd Grŵp Cyllideb Strategol. Rydym yn parhau i weithio gyda Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar nifer o weithgareddau. Rydym yn lobïo LIC am degwch yn y fformiwla ariannu. Rydym hefyd wedi gweithio i adolygu dirprwyaethau a rôl craffu, gweithredu rheolaethau gwariant cadarn, a symud ymlaen gyda modiwlau Technology One newydd (ein system ariannol) (gweler y diweddariadau isod). |
| Gweithredu Systemau Ariannol Craidd Newydd (Technology One) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r modiwl Cerdyn Prynu a'r dangosfwrdd Dyledwyr wedi'u gweithredu'n llawn a'r holl staff wedi'u hyfforddi.<br>Mae 'Cyllidebu a Rhagweld' yn cael eu ffurfweddu, gyda dylunio a phrofi'n parhau; ac mae ffurfweddu a phrofi'r modiwl Contractau wedi'u cynnal, gyda disgwyl iddo gael ei 'weithredu' ym mis Mai 2025. Mae cynnydd gyda'r ddau fodiwl hyn wedi'i gyfyngu gan argaeledd ymgynghorwyr Technology One. |
| Rheolaethau Gwario | Cwblhawyd | Mae gweithdrefnau ar gyfer rheolaethau gwariant ffurfiol wedi'u sefydlu a newidiadau wedi'u hymgorffori yn system gyllid Technology One ers mis Hydref 2024. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygiad o Drefniadau Democrataidd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Adolygwyd ein cyfansoddiad yn erbyn cyfansoddiad Model Cymru gyfan a'i fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Ionawr 2024.<br>Cynhaliwyd adolygiad o ddirprwyaethau ac ystyriwyd Polisi Gwarediadau a dirprwyaethau newydd ar gyfer gwarediadau gan y swyddogaeth graffu a'u mabwysiadu gan y Cabinet ym mis Mai 2025.<br>Cynhaliwyd adolygiad o'n swyddogaeth graffu gan weithgor o aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a bydd argymhellion yn cael eu hadrodd i'r Cyngor ym mis Mai.<br>Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu hadolygu ac mae rheolau newydd yn cael eu drafftio ar hyn o bryd i'w rhoi drwy'r broses ddemocrataidd yn ystod haf 2025.<br>Bydd adolygiad o'n Rheoliadau Ariannol, a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wahanol ddirprwyaethau i'w rhoi drwy'r broses ddemocrataidd yn ystod mis Mawrth 2026. |
| Strategaeth Wydnwch | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r strategaeth wydnwch ddrafft yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad â'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'n canolbwyntio ar nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys cyllid, digidol, asedau, gweithlu a democratiaeth. |
| Strategaeth Rheoli Asedau | Oren<br>O fewn goddefiant | Dechreuodd drafftio'r Cynllun Rheoli Asedau ym mis Hydref 2024. Disgwylir iddo gael ei adrodd trwy'r broses ddemocrataidd ym mis Ionawr 2026. |
| Strategaeth Gofod Swyddfa (Rhan 2) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ym mis Tachwedd, cytunodd y Cabinet ar brydles o'n cyn-swyddfeydd ym Modlondeb, sy'n gam pwysig wrth gyflawni datrysiad Un Swyddfa. Ym mis Rhagfyr, cytunodd y Cyngor wedi hynny i'r holl wasanaethau democrataidd a swyddfa symud i un lleoliad yng Nghoed Pella. Ym mis Chwefror, cyhoeddom ein bod wedi dod i gytundeb i brydlesu Swyddfeydd Bodlondeb i Quido Investments Limited, a fydd yn rheoli datblygiad Bodlondeb fel canolfan fusnes.<br>Mae trosglwyddo Bodlondeb ar brydles hir i fod i gael ei gwblhau ddiwedd mis Mai 2025, ac mae ailfodelu Coed Pella i fod i gael ei gwblhau ym mis Mehefin. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Strategaeth Gyfalaf Tymor Canolig | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn y cyfnod trafod cychwynnol a byddwn yn cyd-fynd â:<br>• Strategaeth Rheoli Asedau<br>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Rhaglen Gyfalaf a chyllidebau Blynyddol<br>• Cynlluniau Amgylcheddol |
| Gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Dim ond rhannau o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sydd wedi dod i rym, gyda'r elfennau sy'n ymwneud â chaffael a dyletswyddau ychwanegol i ddod i rym yn gynnar yn 2026 (gweler hefyd 6.3.5.4 Partneriaeth Gymdeithasol isod). |
| Strategaeth Gaffael | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Strategaeth Gaffael ar waith a chyflwynwyd yr adroddiad caffael blynyddol cyntaf i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Ionawr. Cyflwynodd hwn grynodeb o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau allweddol a restrir yn y strategaeth. |
| Trawsnewid Digidol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn ddigidol, rydym wedi lansio ystod o brosesau a systemau newydd ers mis Medi 2024, sy'n cynnwys gwelliannau i wasanaethau ar-lein, yn enwedig cyflwyno "fy nghyfrif", ehangu ffurflenni trwyddedu, system datrysiadau tai newydd, a gwelliannau pellach i wasanaeth dysgu cerddoriaeth ar-lein. Mae gwefan Oriel Colwyn hefyd wedi'i lansio.<br><br>Rydym wedi mynd ar drywydd cyfleoedd peilot i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn foesegol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau neu systemau. Mae'r rhain yn cynnwys awtomeiddio ysgrifennu nodiadau cyfarfodydd a nodiadau achos, a systemau i gefnogi dinasyddion mewn caledi ariannol allu manteisio ar fudd-daliadau. Rydym hefyd yn treialu offer cynhyrchiant deallusrwydd artiffisial fel Microsoft Copilot, ac yn bwrw ymlaen ag uwchraddio neu amnewid systemau wedi'u moderneiddio ar gyfer gofal cymdeithasol, cynllunio, gorfodaeth parcio ac ymgysylltu â robotiaid sgwrsio. Rydym yn parhau i weithio ar integreiddio systemau ac yn defnyddio awtomeiddio prosesau robotig i gyflymu mewnbwn data i'n systemau e.e. ceisiadau cludiant i'r ysgol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd y polisi cludiant i'r ysgol diwygiedig yn cael ei weithredu o fis Medi 2025. Bydd adolygiad parhaus yn dilyn hyn i fonitro'r effaith ar y gyllideb cludiant, oherwydd er y gallai hyn weld gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n derbyn rhai elfennau o gludiant, mae cynnydd yn parhau yn y costau gweithredu sy'n gysylltiedig â chludiant ysgol. Mae penderfyniadau cludiant ysgol yn unol â'r polisi a deddfau perthnasol, ac mae pob apêl yn cael ei thrin trwy broses briodol.<br>I gefnogi effeithlonrwydd yn y dyfodol, mae swydd asesydd cludiant yn cael ei chynnig ar hyn o bryd i reoli a chefnogi mwy o opsiynau cludiant cynaliadwy annibynnol. Bydd hyn yn creu capasiti o fewn y tîm i weithio gyda theuluoedd i sicrhau bod y cludiant mwyaf gwydn a phriodol yn cael ei ystyried ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| Prosiect Taflenni Amser Corfforaethol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r prosiect Taflenni Amser Corfforaethol yn gwneud cynnydd da. Mae'r datblygwr (Midland) yn cydweithio'n agos â chydweithwyr i weithredu ein telerau ac amodau cyflogres. Unwaith y bydd y cam hwn wedi'i gwblhau, bydd profion trylwyr yn dechrau i sicrhau taliadau cywir. Yn dilyn profion derbyniad defnyddwyr llwyddiannus, bydd cyfnod prawf yn dechrau. |
| Trawsnewid Gofal Cymdeithasol ac Addysg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r rhaglen yn parhau i gyflawni ei hamcanion trwy nifer o brosiectau:<br>• Trawsnewid Lleoliadau Preswyl Plant a Gofal Maeth Mewnol<br>• Datblygu Gwasanaeth Busnes, Perfformiad a Chyllid integredig ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Addysg<br>• Gwella'r ffordd rydym yn comisiynu gofal cartref yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn<br>• Adolygiad Byw â Chymorth yn y Gwasanaethau Anabledd<br>• Datblygiadau Planhigfa, Caffi a Siop Bryn Euryn<br>• Datblygu Prosiect Model Gwasanaeth Gwella Addysg newydd<br>Rydym yn monitro ac yn rheoli'r gyllideb gyffredinol yn gadarn gyda'r bwriad o Nodi arbedion posibl a gwneud y mwyaf o bob cyfle i gynyddu incwm. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cyd-ddylunio a chyd-gomisiynu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gan ddefnyddio cyllid grant, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol i gyd-ddylunio a chyd-gomisiynu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Gan weithio ochr yn ochr â'r gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a nyrsys sydd ar hyn o bryd yn rhan o'n timau adnoddau cymunedol, bydd y gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl i gael mynediad at y gwasanaethau trydydd sector sydd ar gael iddynt yn eu cymuned. Nid yw presgripsiynu cymdeithasol yn beth newydd. Mae'n ymwneud â'r trydydd sector yn gwneud yr hyn y mae'n ei wneud orau wrth greu cysylltiadau cryfach a mwy ffurfiol â gwasanaethau statudol trwy broses atgyfeirio. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus ers sawl blwyddyn ac mae ganddo gyllid bellach wedi'i sicrhau trwy ffrwd waith Ymhellach, Yn Gyflymach Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at feithrin capasiti yn y system iechyd trwy ofal cymunedol. |

## 1.3 Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Digwyddodd y newyddion a’r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r flaenoriaeth hon.

### 1.3.1. Trosolwg a Llywodraethu Ariannol

Ym mis Tachwedd, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd yn nodi agweddau allweddol y trefniadau rheoli a stiwardiaeth ariannol sy'n gweithredu fel rhan sylfaenol o'n trefniadau llywodraethu cyffredinol. Cadarnhaodd y trefniadau presennol o ran y Panel Rheoli Gwariant, sy'n cyfarfod dair gwaith yr wythnos i gymeradwyo gwariant hyd at £25,000. Roedd panel ar wahân hefyd ar gyfer gwariant dros £25,000, yn cwrdd ddwywaith yr wythnos.

### 1.3.2. Diweddariad Ariannol

Cyflwynwyd diweddariad ariannol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd a roddodd drosolwg o'r heriau sy'n ein hwynebu fel cyngor, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ymateb i'r rhain. Cafodd y Cabinet adroddiadau ym mis Tachwedd a Chwefror ar adroddiad monitro cyllideb refeniw ar gyfer chwarteri 2 a 3. Rhannwyd y rhain hefyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Mae'r adroddiad monitro diweddaraf yn dangos bod y rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn wedi gwella o'i gymharu â'r chwarter

blaenorol oherwydd rhywfaint o gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i frwydro yn erbyn pwysau cyllidebol sylfaenol sylweddol oherwydd galw cynyddol am wasanaethau, yn ogystal â phwysau chwyddiant parhaus. Mae'r angen i wasanaethau weithio o fewn y gyllideb wedi cael ei bwysleisio i staff.

### 1.3.3. Adolygiadau Treth y Cyngor

Yn ddiweddar, cynhaliom adolygiad i wirio cymhwysedd sawl eiddo sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y Gostyngiad Person Sengl. Mae'r gostyngiad yn rhoi 25% oddi ar Dreth y Cyngor os mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo. Er bod y rhan fwyaf o'r aelwydydd sydd wedi cofrestru ar gyfer y gostyngiad yn ei hawlio'n gyfreithlon, fe nodom ystod o amgylchiadau lle nad oeddent yn gymwys i'w gael neu lle'r oedd unigolion yn ei hawlio drwy dwyll. Nododd yr adolygiad ychydig o dan £275k a oedd yn cael ei hawlio'n anghywir, ac y mae'r Cyngor wedi mynd ati i'w adennill oddi wrth y preswylwyr anghymwys hynny. Mae'n hanfodol ein bod fel cyngor yn gwneud y mwyaf o'n hincwm er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n holl breswylwyr, yn enwedig ar adeg lle mae'r hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn heriol. Mae refeniw Treth y Cyngor yn cyfrif am oddeutu 30% o'n cyllideb, gyda chronfeydd eraill yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae adolygiad o eiddo a ddylai fod yn talu Premiwm Treth y Cyngor, fel ail gartref neu eiddo gwag hirdymor, hefyd ar waith. Anogir preswylwyr i roi gwybod am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau i ni ar trethycyngor@conwy.gov.uk

Ym mis Ionawr, argymhellodd y Cabinet a chytunodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2025 i 2026. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r elfennau dewisol, sydd wedi'u mabwysiadu'n flynyddol ers 2013.

### 1.3.4. Gosod y Gyllideb ar gyfer 2025 i 2026

Mae'n ofynnol i bob cyngor osod cyllideb gytbwys flynyddol i sicrhau nad yw'r gwariant a gynlluniwyd yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Ym mis Hydref, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad a ddarparodd yr amserlen gynlluniedig a'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â'r Fframwaith Cynllunio Busnes ar gyfer 2025 i 2026. Mae'n caniatáu cyflwyno achosion busnes i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol, yn ogystal ag adnabod cynigion lleihau cyllideb yn seiliedig ar y rhagolygon ariannol.

Ym mis Rhagfyr, cyflwynwyd adroddiadau i'r Cabinet yn darparu'r sefyllfa gyllidebol ar gyfer 2025 i 2026, gan nodi'r pwysau ariannol sy'n ein hwynebu fel cyngor, a'r penderfyniadau anodd y byddai angen i'n haelodau eu hystyried cyn gosod cyllideb

gytbwys.  Yn dilyn cyhoeddiad y Setliad Llywodraeth Leol dros dro, cyflwynwyd ail adroddiad i'r Cabinet ym mis Ionawr yn egluro bod ein diffyg cyllid amcangyfrifedig yn £9.936m.  Nododd yr adroddiad opsiynau i'w hystyried wrth benderfynu ar gyfeiriad strategol a fydd yn caniatáu inni osod cyllideb gytbwys. Wedi hynny, cyhoeddodd yr Arweinydd ddatganiad i'r wasg yn egluro y byddem yn derbyn cynnydd o 3.7% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru, sydd islaw cyfartaledd Cymru o 4.3% ac nad yw'n ddigonol i gwrdd â'r diffyg yr ydym yn ei wynebu oherwydd y pwysau ariannol yr ydym yn ei wynebu. Anogwyd preswylwyr i gwblhau ein  harolwg cyllideb fel y gellid bwydo eu barn i benderfyniadau cyllideb.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, cyflwynwyd adroddiadau pellach i'r Cabinet ym mis Chwefror yn cynnig y gyllideb refeniw ddrafft a chynnydd o 8.95% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2025 i 2026, a gymeradwywyd gan y Cyngor.

### 1.3.5. Archwilio Cymru: Cynaliadwyedd Ariannol yng Nghonwy a Llywodraeth Leol

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ddau adroddiad Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Ariannol Conwy, a Llywodraeth Leol yn ehangach. Cydnabu'r adroddiad lleol, er bod gennym drefniadau i gefnogi ein cynaliadwyedd ariannol, nad yw'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth fynd i'r afael â maint ein bwlch cyllidebol a'n cronfeydd wrth gefn isel, sy'n risg sylweddol i'n cynaliadwyedd hirdymor heb newid trawsnewidiol. Gwnaeth yr adroddiad 1 argymhelliad, sef gweithio gyda swyddogion ac aelodau i ddatblygu trefniadau ar gyfer nodi arbedion ar raddfa a all effeithio ar y bwlch cyllidebol a nodwyd.

Cydnabu'r adroddiad Llywodraeth Leol ehangach nad yw sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn gynaliadwy dros y tymor canolig oni bai bod camau gweithredu yn cael eu cymryd. Wrth sôn am y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, deuir i’r casgliad cyffredinol fod gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ategu eu cynaliadwyedd ariannol byrdymor ond nad ydynt wedi datblygu eu cynlluniau tymor hwy yn llawn eto. Cyflwynwyd y ddau adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror.  Cafodd y pwyllgor y dasg o fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr argymhelliad uchod.

### 1.3.6. Cefnogi Gwydnwch Staff

Ym mis Hydref, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau gyfle i adolygu data gweithlu ychwanegol, ynghyd â mesurau mewn grym i gefnogi iechyd a lles staff. Er bod ein Dangosfwrdd Gweithlu yn cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion rheoli, rydym yn gallu dwyn ynghyd rhai casgliadau lefel uchel o'r data. Roedd trosiant staff yn gymharol sefydlog ac yn gyson â blynyddoedd blaenorol, ac roedd presenoldeb staff yn uwch na'r amcangyfrif a 0.02 diwrnod FTE yn fwy nag ar gyfer 2022 i 2023. Mae rheoli a chefnogi presenoldeb yn flaenoriaeth allweddol i bob rheolwr, a hysbyswyd yr aelodau am y llu o ddulliau a gymerir i reoli presenoldeb staff. Hysbyswyd yr aelodau, er bod lefel uchel o absenoldeb yn ymwneud â straen, nid oedd pob achos o straen yn gysylltiedig â gwaith. Mae gweithgor swyddogion wedi'i sefydlu, ynghyd â Chynllun Cyfathrebu Lles. Mae'r polisi presenoldeb hefyd yn cael ei adolygu. Cymeradwyodd y Cabinet y camau sy'n cael eu cymryd i reoli presenoldeb staff. Fe wnaethant hefyd gydnabod bod pob achos o straen yn gymhleth a'n bod yn canolbwyntio'n bennaf ar fesurau ataliol.

# Nod 2. Mae pobl yng Nghonwy’n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 2.

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 2.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae canran y gwastraff a ailddefnyddir, a ailgylchir neu a gompostir wedi cynyddu i 70.7% yn ystod 2024 i 2025, o'i gymharu â 69.6% y flwyddyn flaenorol. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno bagiau ailgylchu cardbord i aelwydydd, a gesglir yn wythnosol. Gyda chynnydd siopa ar-lein a danfoniadau i’r cartref, rydym bellach yn casglu 214 tunnell ychwanegol o gardbord y flwyddyn. Anogir preswylwyr i dorri bocsys a’u rhwygo er mwyn gallu ffitio cymaint ag sy’n bosibl yn y bagiau. Rydym hefyd wedi atgoffa preswylwyr i wasgu poteli plastig a'u cynnwys yng nghanol y trolibocs, a bod modd cynnwys poteli ychwanegol wedi'u gwasgu mewn bagiau clir a'u cynnwys wrth ochr y bin.

Mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd wedi cynyddu o 1,633 yn 2023 i 2024 i 1,774 yn 2024 i 2025. Roeddem yn flaenorol yn y trydydd chwartel ar gyfer y mesur hwn, yn safle’r 8fed gorau yng Nghymru. Rydym yn aros am gyhoeddiad y data cenedlaethol i weld sut rydym yn cymharu yn 2024 i 2025. Mae Gwasanaethau Rheoleiddio yn gorfodi lle mae trosedd wedi'i gyflawni a bod digon o dystiolaeth i erlyn. Yn ogystal, mae cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi caniatáu inni brynu camerâu symudol fel rhan o brosiect Mannau Agored Gwell, a gellir eu defnyddio mewn ardaloedd problemus fel ataliad ac offeryn gorfodi i adnabod troseddwyr.

Nifer yr eiddo ychwanegol a ddiogelwyd rhag y risg o lifogydd yn ystod 2024 i 2025 oedd 1,516. Mae mesurau amddiffyn rhag llifogydd yn cynnwys cynlluniau amddiffyn arfordirol Llandudno a Bae Cinmel a chwblhau rhywfaint o waith ar raddfa lai. Ym mis Rhagfyr, dechreuon ni weithio ar wella amddiffynfeydd arfordirol Bae Cinmel o Barc Carafanau Golden Sands i Barc Carafanau Sunnyvale. Cyflwynwyd adolygiad chwemisol o gynlluniau lleihau risg llifogydd arfordirol ac afonol ledled y sir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Chwefror 2025. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o gyllid y prosiectau, diweddariad ar y mesurau lliniaru risg llifogydd sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, ac amlygodd ymgynghoriadau a gwaith strategol sy'n cael eu gwneud gan

swyddogion ar ran y cyngor. Cyflwynwyd y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol ddrafft i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Mawrth. Mae'r Strategaeth yn egluro sut y bydd llifogydd yn cael eu rheoli ar draws ardal yr Awdurdod Lleol ac mae'n gyson ag amcanion a nodau Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Arfordirol newydd Llywodraeth Cymru (LlC). Ym mis Ebrill, cytunodd y Cabinet i ymgynghoriad cyhoeddus ddigwydd ar y Strategaeth. Bydd hyn yn digwydd yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2025 trwy gynnal sesiynau cyhoeddus ar-lein a galw heibio i gasglu barn y cyhoedd.

Rhwng mis Ebrill a mis Mawrth, nodwyd cyfanswm o 494 o ddiffygion diogelwch ar ffyrdd a phalmentydd, ac fe gwblhawyd 84% ohonynt o fewn yr amser targed, i lawr o 90% y flwyddyn flaenorol. Rydym yn disgwyl data diwedd blwyddyn yn fuan ar gyfer ein dangosyddion cyflwr ffyrdd. Noder, oherwydd problem genedlaethol gyda'r cwmni sy'n cynnal yr arolygon sganio ffyrdd, nad oes data ar gael ar gyfer 2023 i 2024.

Rydym yn datblygu dangosydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gefnogi'r nod hwn. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar arolwg ymgysylltu blynyddol â budd-ddeiliaid.

Mae canran y strydoedd sy'n lân wedi gostwng ychydig o 98% yn 2023 i 2024, i 96% ar ddiwedd y flwyddyn, 2024 i 2025. Archwiliwyd cyfanswm o 314 o strydoedd gan swyddogion Cadwch Gymru'n Daclus a Chonwy, o'i gymharu â 294 o strydoedd a arolygwyd yn 2023 i 2024. Ym mis Hydref i fis Rhagfyr, fe ddarparom ychydig o waith glanhau arbenigol ar strydoedd o amgylch y sir, gyda chyllid gan Lywodraeth y DU. Defnyddiwyd peiriannau sgwrio pwysedd uchel, golchwyr chwistrell a deunyddiau glanhau sydd ddim yn niweidiol i'r amgylchedd i lanhau strydoedd yn Llanrwst, Abergele, Bae Cinmel, Towyn, Cyffordd Llandudno, Conwy, Bae Colwyn, Hen Golwyn, Llandrillo yn Rhos a Llandudno yn drylwyr.

Rydym wedi cynnwys mesur newydd o ran newid carbon gyda'r adroddiad hwn, i eithrio ein cadwyn gyflenwi, sy'n cyfrif am dros 60% o'n hallbwn carbon (tua 28,496 tunnell allan o gyfanswm o 45,672 tunnell). Ar gyfer 2023 i 2024, cyflawnwyd gostyngiad o 18% ar ein blwyddyn sylfaenol. Rydym yn rhagweld data ar gyfer 2024 i 2025 ym mis Medi.

### 2.1.1 Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 70%; Trothwy Goddefiant: 5%** | 69.6%<br>Oren<br>Gwell | 70.7%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 1,663<br>Coch<br>Yr un fath | 1,774<br>I'w gadarnhau<br>Gwaeth |
| Nifer yr eiddo lle mae'r risg o lifogydd wedi'i leihau yn dilyn gweithredu mesurau amddiffyn rhag llifogydd – **Cyfrif yn Unig** | 604 | 1,516 |
| Canran ffyrdd A mewn cyflwr gwael cyffredinol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 4%; Trothwy Goddefiant: 20%** | Dim data | Aros am ddata |
| Canran ffyrdd B mewn cyflwr gwael cyffredinol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 7.5%; Trothwy Goddefiant: 10%** | Dim data | Aros am ddata |
| Canran ffyrdd C mewn cyflwr gwael cyffredinol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 15%; Trothwy Goddefiant: 10%** | Dim data | Aros am ddata |
| Canran y diffygion diogelwch mewn ffyrdd a phalmentydd a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 90%; Trothwy Goddefiant: 85%** | 90.02%<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | 84.41%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Dangosydd Llais Budd-ddeiliaid – yn cael ei ddatblygu | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 2.1.2. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y strydoedd a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n lân – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 90%; Trothwy Goddefiant: 85%** | 98.17%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 98.64%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 94.20%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth | 96.18%<br>Gwyrdd<br>Gwell |

### 2.1.3. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Y newid mewn canran o allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi (2019 i 2020) - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: -100% (0 erbyn 2030); Trothwy Goddefiant: I'w gadarnhau** | -19%<br>Coch<br>Gwaeth | Data i'w ddisgwyl ym mis Medi 2025 |
| Y newid mewn canran o allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen, ac eithrio'r gadwyn gyflenwi (2019 i 2020) - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: -100% (0 erbyn 2030); Trothwy Goddefiant: I'w gadarnhau** | -18%<br>Coch<br>Gwell | Data i'w ddisgwyl ym mis Medi 2025 |

## 2.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae deg cam gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae dau o fewn goddefiant, ac mae'r wyth sy'n weddill ar y trywydd iawn.

### 2.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Rhaglen Her yr Hinsawdd | Oren<br>O fewn goddefiant | Ym mis Ionawr, cafodd adroddiad perfformiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle a oedd yn dangos cynnydd y cyngor mewn cyflawni sero net. Rhoddodd yr adroddiad hwn sicrwydd bod y cyngor yn mynd i'r afael â'i berfformiad yn effeithiol ac yn ei fonitro yn erbyn targedau lleihau carbon a'n cynllun sero net.<br>Mae ein fflyd cerbydau trydan wedi'i hehangu a phwyntiau gwefru ychwanegol wedi'u gosod ar safleoedd y cyngor, gyda gwybodaeth a chanllawiau'n cael eu hyrwyddo i lywio dewisiadau teithio staff. Mae gwaith datgarboneiddio hefyd wedi'i gyflawni mewn sawl ysgol. |
| Rhaglen Isadeiledd Amgylcheddol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rhaglen barhaus o brosiectau isadeiledd mawr a gyflawnir o dan 5 is-raglen:<br>Cronfa Gludiant Ffyniant Bro; Amwynderau / Cyfleusterau; Amgylchedd; Amddiffyn Arfordirol a rhag Llifogydd; Gwelliannau Asedau Priffyrdd. |
| Prosiect Trosglwyddo Gwastraff | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd diweddariad ar y Prosiect Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff a gynigiwyd ar gyfer safle'r Hen Waith Brics, Cyffordd Llandudno, i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r trefniadau presennol, y cynnydd a wnaed hyd yma, y risgiau a nodwyd, a'r costau cysylltiedig. Mae'n debygol y bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi 2025.  Byddai'r prosiect yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru. |

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae cadwraeth bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau a strategaethau presennol, megis Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn; Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno; a'n Llawlyfr Cynnal a Chadw Coed.<br><br>Nodi a thargedu cyfleoedd cyllido i weithredu mesurau creu, adfer a gwella cynefinoedd ar draws tir a reolir gan y cyngor gan gynnwys: gaeafleoedd ystlumod Coed Pwllycrochan; blychau cytrefi gwenoliaid duon; torri a chasglu blynyddol biosafleoedd; camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer arwyddion dehongli peillwyr; dychwelyd i oleuadau stryd ambr mewn rhai ardaloedd i wrthdroi'r effeithiau andwyol ar ystlumod a bywyd gwyllt arall; cynlluniau gwella bioamrywiaeth mewn 4 parc cyhoeddus; cyflawni prosiect bioamrywiaeth tir ysgol mewn 4 ysgol; cylchfannau peillwyr; llochesi bysiau byw; a chais am achrediad caru gwenyn ar gyfer y sir. |
| Cynllun Datblygu Trafnidiaeth Rhanbarthol (gan gynnwys Teithio Llesol) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, cefnogodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle y cynnydd a wnaed gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r cynllun yn amlinellu gweledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth ein rhanbarth, gan gynnwys nodau, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer gwella isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth. Rhagwelir y bydd y Cynllun Trafnidiaeth yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus (a barhaodd tan 14 Ebrill, 2025). Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet ym mis Ebrill. |
| Cynlluniau Amddiffyn rhag Llifogydd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, mae cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar y gweill ledled y sir yn Llanfairfechan; Llandudno; Bae Cinmel; Llanrwst a Phenmaenmawr. |
| Cynllun Ynni Ardal Leol | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae'r 7 ymyrraeth a nodir yn y Cynllun Ynni Ardal Leol yn symud ymlaen, rhai'n gyflymach nag eraill. Mae pryder o hyd ynghylch ariannu pympiau gwres ôl-osod, a defnyddio cerbydau trydan ledled y Fwrdeistref Sirol (neu ardaloedd problemus) heb gymorth ariannol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Amgylchedd Glân a Deniadol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae grwpiau gwirfoddol yn parhau i ddarparu gwaith casglu sbwriel helaeth ar draws y sir, gan gynnwys glanhau traethau a gwaith strydlun h.y. peintio pyst lampau, meinciau ac ati.<br>Mae grwpiau gwirfoddolwyr yn darparu tua 38,400 o oriau gwirfoddoli yng Nghonwy bob blwyddyn gan 400 o wirfoddolwyr. |
| Clefyd coed ynn | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gwaith yn cael ei wneud i leihau'r risg a gyflwynir gan goed ynn heintiedig, yn benodol mewn ysgolion, safleoedd addysg eraill, ac o fewn ardaloedd nifer ymwelwyr uchel. |
| Diweddariad Gosod LoRaWAN | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Wrth fanteisio ar ddatblygiadau technoleg newydd mae Conwy yn parhau i arwain y ffordd gyda mabwysiadu datrysiadau LoRaWAN. Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflwyno datrysiad rhybudd llifogydd monitro afonydd naturiol am gostau is na dewisiadau eraill masnachol. Rydym hefyd yn treialu technolegau i gefnogi ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol am gost llawer is na dewisiadau amgen masnachol. Rydym yn datblygu system dangosfwrdd i ddarparu data cyfunol ac unigol ar dwf ynni paneli solar a lefelau defnydd ar gyfer safleoedd unigol lle maent wedi'u gosod ar adeiladau. |

## 2.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 2.3.1. Strategaeth Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Cymeradwyodd y Cabinet ein Strategaeth Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ym mis Tachwedd. Gyda nifer y cerbydau trydan a yrrir gan breswylwyr ac ymwelwyr yn cynyddu, mae'r Strategaeth hon yn darparu dull sirol ar gyfer gosod gwefrwyr cerbydau trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus a safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor. Bydd y cyflwyniad cychwynnol yn canolbwyntio ar feysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor, gyda'r nod o sicrhau bod cyfleusterau gwefru cerbydau trydan ar gael ledled y sir ac yn hygyrch i bawb. Bydd gweithredu'r strategaeth hon yn annog diweddaru dulliau trafnidiaeth glanach, gan helpu i leihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer.

### 2.3.2. Storm Darragh

Ym mis Rhagfyr, daeth Storm Darragh â heriau sylweddol i ni, gan ysgogi rhybuddion tywydd coch a melyn gan y Swyddfa Dywydd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Fe wnaethom annog preswylwyr ac ymwelwyr i gymryd y rhybuddion hyn o ddifrif ac osgoi teithio diangen. Mewn ymateb, cydweithiom yn effeithiol â'n partneriaid i gydlynu ymdrechion, rhoi amddiffynfeydd allweddol ar waith, ac archwilio isadeiledd hanfodol. Helpodd y camau gweithredu hyn i leihau difrod a sicrhau cefnogaeth amserol i unigolion diamddiffyn yn ein cymunedau.

### 2.3.3. Bioamrywiaeth

Roeddem wrth ein bodd yn cyhoeddi ym mis Hydref fod larfa'r gwyfyn prin pluog Wheeleria Spirodactylus yn byw yn helaeth ar y Gogarth yn Llandudno. Cynhaliwyd arolygon arbenigol fel rhan o Brosiect Creaduriaid Cudd y Creuddyn, a ganfu 1,109 o lindys – a elwir hefyd yn larfa. Dim ond yng Nghymru ar drwyn y Creuddyn y ceir y micro-wyfyn trawiadol hwn, sy'n cynnwys ardaloedd fel Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos, Deganwy, Bae Penrhyn a Chyffordd Llandudno. Mae'r prosiect yn gydweithrediad amgylcheddol dielw rhwng Cyngor Conwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Gwarchod Gloÿnnod Byw, sy'n anelu at ddeall yn wella gwarchod rhywogaethau prin ac sydd mewn perygl yn y rhanbarth.

### 2.3.4. Adolygiad 20mya

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024, gwahoddodd Llywodraeth Cymru breswylwyr i roi adborth ar weithredu'r terfyn cyflymder 20mya. Gan ddefnyddio'r Meini Prawf Lle o ganllawiau Llywodraeth Cymru, fe wnaethom adolygu ffyrdd A a B, a llunio rhestr flaenoriaethau ar gyfer asesiad llawn. Byddwn yn casglu data ar gyflymder traffig, llifau, a gwrthdrawiadau hanesyddol ar gyfer y ffyrdd hyn, ac os yw asesiadau'n awgrymu bod angen newid y terfyn cyflymder, byddwn yn ymgynghori â phreswylwyr lleol, aelodau, cynghorau tref a chymuned, a’r gwasanaethau brys cyn bwrw ymlaen ag unrhyw Orchmynion Rheoleiddio Traffig.

### 2.3.5. Gwella Ansawdd Dŵr

Ym mis Hydref, cydweithiom â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gychwyn prosiect yn ardal Craig y Don, Llandudno i wella ansawdd dŵr ymdrochi trwy ganfod a thrwsio pibellau dŵr gwastraff oedd wedi'u cysylltu'n anghywir. Mae'r cysylltiadau anghywir hyn yn

digwydd pan fydd dŵr gwastraff o ffynonellau fel toiledau, sinciau, peiriannau golchi, cawodydd ac ati wedi'u cysylltu'n anghywir â draeniau dŵr wyneb.  Gall hyn arwain at garthffosiaeth heb ei drin a llygredd yn mynd i'n hafonydd a'n traethau lleol ac o bosibl yn niweidio'r amgylchedd.  Ymwelsom â dros 120 o gartrefi a chanfod a chywiro 18 o broblemau.  Anogwyd preswylwyr i sicrhau bod pibellau plymio eu heiddo wedi'i gysylltu'n gywir, yn enwedig os oedd gwaith adnewyddu neu estyniadau wedi'i gwneud.  Mae'r fenter hon yn rhan o ymdrech ehangach i atal llygredd a gwella ansawdd dŵr yn yr ardal.

### 2.3.6. Archwilio Cymru: Adolygiad Rheoli Gwastraff

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o wasanaethau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff yng Nghonwy. Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod 2024 a daeth i'r casgliad bod "y cyngor yn darparu gwasanaeth gwastraff effeithiol ac effeithlon sy'n cyrraedd targedau statudol.  I fedru cyflawni targedau statudol uwch yn y dyfodol, dylai'r cyngor ystyried cryfhau'r trefniadau ar gyfer mynd i'r afael â meysydd o risg ac arfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy pendant." Gwnaed pedwar argymhelliad:

1. Er mwyn galluogi a chefnogi gweithrediad ac adolygiad gwelliannau, dylai'r Cyngor gofnodi ei adolygiad o berfformiad gwasanaethau, data ariannol ac unrhyw ddata arall yn ffurfiol.
2. Dylai'r cyngor gwblhau dadansoddiad o achosion tipio anghyfreithiol i gefnogi gwelliannau mewn cyfraddau ac i lywio cynllun gweithredu i wneud gorfodi yn adnodd realistig. Dylai hyn gynnwys asesiad o werth am arian gweithgaredd atal yn erbyn cost tipio anghyfreithlon.
3. Er mwyn galluogi gwybodaeth a gwneud penderfyniadau strategol ehangach, dylai'r cyngor adolygu cyfleoedd i adrodd ar berfformiad a chyfleoedd, megis contractau masnachol, i aelodau etholedig.
4. Dylai'r cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer ariannu ac amnewid cerbydau, peiriannau ac offer dros oes ddefnydd asedau i sicrhau bod gwasanaethau'n gadarn ac i fanteisio ar arbedion posibl o ran costau rhedeg.

Datblygwyd cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion ac fe'i hadroddwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle; a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2024.

### 2.3.7. Calendrau Ailgylchu

Ym mis Tachwedd, cynghorwyd preswylwyr gennym na fyddai calendrau ailgylchu'n cael eu dosbarthu drwy'r post mwyach. Gyda chost argraffu a phostio calendrau i dros 55,000 o gartrefi yn cyfateb i ddegau o filoedd o bunnoedd, credwn fod y cronfeydd hyn yn cael eu cyfeirio'n well at gynnal a gwella gwasanaethau rheng flaen. Mae modd cael calendrau ailgylchu o hyd yn hawdd ar-lein trwy ein gwefan neu drwy ddefnyddio ap Conwy, a gellir eu hargraffu gartref, mewn llyfrgelloedd lleol, neu yn ein swyddfeydd yng Nghoed Pella.

### 2.3.8. Casgliadau Gwastraff Swmpus

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, dyfarnodd y Cabinet y contract ar gyfer ein gwasanaeth casglu gwastraff swmpus. Mae'r contract am 5 mlynedd, gyda'r opsiwn o gael ei ymestyn am 2 flynedd arall.

### 2.3.9. Teithio Llesol

Rydym wedi dyfarnu contractau ar gyfer adeiladu prosiectau teithio llesol RSPB Glan Conwy a Phont y Soldiwr, y ddau wedi'u hariannu gan Lywodraeth y DU. Cymeradwywyd y dyfarniad gan y Cabinet ym mis Chwefror, gan roi cymeradwyaeth hefyd i wario hyd at 20% ychwanegol o swm y tendr pe bai risgiau a nodwyd i'r prosiectau yn dod i'r amlwg.

### 2.3.10. Diogelu'r Awyr Dywyll

Ym mis Ionawr, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i gyflwyno Canllawiau Arfer Da Cenedlaethol i helpu i ddiogelu ei hawyr dywyll. Roedd Swyddog Polisi Cynllunio Strategol Conwy – Robin Sandham – yn rhan o'r gweithgor bach Cymru gyfan a sefydlwyd i gynhyrchu'r canllawiau newydd. Nid yn unig y mae awyr dywyll yn cefnogi iechyd a lles y genedl, ond mae rhywogaethau dirifedi yn dibynnu ar dywyllwch naturiol i oroesi, ac mae ein system gynllunio yn chwarae rhan sylfaenol wrth ddiogelu hyn.

### 2.3.11. Trechu Fandaliaeth

Mae'r Aelod Cabinet dros Economi Gynaliadwy, y Cynghorydd Nigel Smith, wedi ceisio cefnogaeth gymunedol i frwydro yn erbyn fandaliaeth mewn cymunedau yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau yn y Sir. Mae atgyweirio difrod yn gost sylweddol i Gonwy sy'n dargyfeirio arian o ardaloedd eraill. Anogwyd y cyhoedd i gysylltu â'r heddlu drwy ffonio 101, neu anfon e-bost at y Tîm Twristiaeth yn twristiaeth@conwy.gov.uk gyda gwybodaeth am fandaliaeth sydd wedi digwydd.

## Nod 3. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi, ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 3.

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 3.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae canran y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r mesur bellach yn gyson tua 3.9%, sy'n cynrychioli tua 2,565 o bobl. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.5%, ond yn is na chyfartaledd y DU o 4.2%.

Mae canran y bobl 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth wedi cynyddu ychydig o 6.1% i 6.3%, sy'n cynrychioli 149 o ddisgyblion allan o garfan o 2,367. Rydym wrthi'n ymchwilio i achosion posibl y cynnydd hwn fel y gallwn deilwra ein cefnogaeth yn briodol.

Mae canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi gwella o 86% i 88% yn ystod blwyddyn academaidd 2024 i 2025. Byddwn yn derbyn data ar gyfer ein mesurau presenoldeb ysgolion cynradd yn fuan.

Mae 23.2% o ddisgyblion yn cael addysg cyfrwng Cymraeg, i fyny ychydig o 22.9%.

Mae enillion wythnosol gros gweithwyr llawn amser yng Nghonwy wedi cynyddu o £636.10 i £678.4. Mae hyn ychydig islaw canolrif Cymru o £687.40, ac ymhell islaw cyfartaledd y DU o £729.80.

Yn y fframwaith hwn, rydym wedi cyflwyno dau fesur newydd i ystyried cyfradd sefydlu a darfod busnesau yn y sir fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio. Yn ystod 2023 i 2024, sefydlwyd 54 o fusnesau fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio (cyfanswm o 350). Mae hyn i lawr o 60 y flwyddyn flaenorol (cyfanswm o 390). Rydym yn y 9fed safle yng Nghymru ar gyfer busnesau gweithredol newydd, ychydig uwchben Canolrif Cymru sef 53. Am yr un cyfnod, daeth 56 o fusnesau fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio (360 i gyd) i ben. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â 65 y flwyddyn flaenorol (cyfanswm o 420). Rydym yn y 13eg safle yng Nghymru ar gyfer cau busnesau gweithredol (lle mae gan y 1af y nifer lleiaf a'r

22ain y mwyaf), gan ddisgyn ychydig islaw canolrif Cymru sef 55. At ei gilydd, mae 4,190 o fusnesau gweithredol yng Nghonwy, sydd, fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio, yn ein gosod yn y 5ed safle ac yn y chwartel uchaf yng Nghymru. Mae data ar gyfer 2024 a 2025 yn yr arfaeth.

Daeth 9.61 miliwn o ymwelwyr i Gonwy yn ystod 2024 i 2025, gyda chyfanswm effaith economaidd o £1.3 biliwn.

Fel cyngor, yn ystod 2024 i 2025 fe wnaethom ddenu £8.9m mewn cyllid allanol i gefnogi busnesau, adfywio a chymunedau.

Mae 50,295 o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithdy neu weithgaredd diwylliannol yn ein lleoliadau yn ystod 2024 i 2025. Mynychodd 213,547 o bobl berfformiadau yn Venue Cymru a Theatr Colwyn, sy'n ostyngiad o 3% yn nifer y bobl a fynychodd (i lawr o 220,686) yn 2023 i 2024.

Rydym yn datblygu dangosydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gefnogi'r nod hwn. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar arolwg ymgysylltu blynyddol â budd-ddeiliaid.

Mae nifer y busnesau a gefnogwyd wedi gostwng ychydig yn ystod 2024 i 2025 i 66, i lawr o 81 y flwyddyn flaenorol. Ceisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin oedd y rhain a gymeradwywyd, gyda chyfanswm dyraniad grant o £2,127,484. Mae Grant Cymorth Busnes Conwy (CBSG) wedi'i oedi oherwydd adnoddau.

Yn ystod 2024 i 2025 rydym wedi cefnogi 174 o bobl i gael gwaith (i fyny o 121 y flwyddyn flaenorol). Rydym wedi cynnig 51 o brentisiaethau (i fyny o 38); a 41 o leoliadau profiad gwaith (i fyny o 37).

### 3.1.1 Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| **Teitl** | **Canol blwyddyn 2023 i 2024** | **Diwedd blwyddyn 2023 i 2024** | **Canol blwyddyn 2024 i 2025** | **Diwedd blwyddyn 2024 i 2025** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl oedran gwaith sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Canolrif Cymru; Trothwy Goddefiant: Canolrif y DU** | 3.3%<br>Oren<br>Gwell | 3.8%<br>Oren<br>Gwaeth | 3.9%<br>Oren<br>Gwaeth | 3.9%<br>Oren<br>Yr un fath |

### 3.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant -**Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 8%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 6.1%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth | 6.3%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 95%; Trothwy Goddefiant: 94%** | 91.74%<br>Coch<br>Gwell | 92.3%<br>Coch<br>Gwell |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 94.5%; Trothwy Goddefiant: 93.5%** | 86.59%<br>Coch<br>Gwaeth | 88%<br>Coch<br>Gwell |
| Canran y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar gyfrifiad ysgol) - **cyfrif yn unig** | 22.97% | 23.28% |
| Cyflog wythnosol gros gweithwyr llawn amser – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Canolrif y DU; Trothwy Goddefiant: Canolrif Cymru** | £636.1<br>Coch<br>Gwell | £678.4<br>Coch<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cael eu sefydlu fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 54<br>Oren<br>Gwaeth | Aros am ddata |
| Nifer y busnesau sy'n cau fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 56<br>Coch<br>Gwell | Aros am ddata |
| Nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chonwy (STEAM) – **Cyfrif yn Unig** | 9.95 miliwn | 9.61 miliwn |
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yng Nghonwy (STEAM) – **Cyfrif yn Unig** | £1.3 biliwn | £1.3 biliwn |
| Swm y cyllid allanol a ddenwyd i gefnogi busnesau, adfywio a chymunedau – **Cyfrif yn Unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | £8,897,498.62 |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithdy neu weithgaredd diwylliannol (Lleoliadau / Diwylliant a Llyfrgelloedd / Digwyddiadau) – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 50,295<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol |
| Nifer y bobl sy'n mynychu perfformiad yn Venue Cymru a Theatr Colwyn – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 180,000; Trothwy Goddefiant: 171,000** | 220,686<br>Gwyrdd<br>Gwell | 213,547<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Dangosydd Llais Budd-ddeiliaid – yn cael ei ddatblygu | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 3.1.3. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer o fusnesau a gefnogwyd gyda grantiau - **Cyfrif yn Unig** | 81 | 66 |
| Nifer y bobl a gefnogir i gael cyflogaeth trwy waith Canolbwynt Cyflogaeth Conwy – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 145; Trothwy Goddefiant: 130** | 121<br>Coch<br>Gwell | 174<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer y prentisiaethau modern ar strwythur y staff – **Cyfrif yn Unig** | 38 | 51 |
| Nifer y lleoliadau profiad gwaith a gynigir – **Cyfrif yn Unig** | 37 | 41 |

## 3.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae tri ar ddeg o gamau gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae dau o fewn y goddefiant ac mae un ar ddeg ar y trywydd iawn.

### 3.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Cymunedau am Waith a Mwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Prosiect Cymunedau am Waith a Mwy wedi gweld 174 o geisiadau am swyddi a 345 o ymgysylltiadau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae mwy o ddisgyblion bellach yn cael addysg cyfrwng Cymraeg, gyda hyfforddiant darpariaeth Gymraeg o safon ar waith ar gyfer Camau Cynnydd Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu 1-3 Cwricwlwm Cymru ar gyfer pob categori o ysgolion cynradd (gan gynnwys darpariaeth bwrpasol). Rydym wedi gwneud cynnydd wrth gynllunio ar gyfer mwy o ddarpariaeth iaith Gymraeg mewn Grwpiau Chwarae (blynyddoedd cynnar), a chyda chynllunio strategol ysgolion i symud rhai ysgolion ymhellach ar hyd y Continwwm Iaith (gan gynnwys trafodaeth gynnar am gapasiti ysgolion uwchradd). Rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith ar gefnogaeth Siarter Iaith mewn ysgolion Uwchradd cyfrwng Saesneg, gan gynnwys mapio a gwella cefnogaeth darpariaeth allanol (Menter Iaith a'r Urdd). Nodir ein hunanasesiad cyfredol fel gwyrdd gan ein bod ar hyn o bryd uwchlaw'r targed ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw hyn yn cynnwys data cadarnhaol am ddysgwyr sy'n cael mynediad i ysgolion categori T2 (sy'n trosglwyddo i fod yn gwbl ddwyieithog). |
| Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae agoriad llwyddiannus Ysgol Minafon wedi digwydd o 28 Ebrill, ac mae cau'r 2 ysgol flaenorol wedi'i gwblhau. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chefnogi gan un strwythur rheoli ac ar un safle, sy'n darparu mwy o reolaeth a theimlad gwell o gymuned ysgol.<br>Mae uno ysgolion Abergele a Bae Cinmel yn dal i fynd rhagddo ond yn symud ymlaen yn dda, gyda'r nod o gyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Cabinet yn haf 2025. Mae ffederaleiddio Ysbyty Ifan a Llanddoged wedi'i ohirio yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i ystyried opsiynau eraill.<br>Yr ysgolion presennol sy'n ffocws ar gyfer buddsoddiad cyfalaf prif safle yw Ysgol Eirias ac Ysgol Gogarth, gyda'r gwaith wedi'i nodi i'w gwblhau o fewn y 3 blynedd nesaf. |
| Hwyluso Cynlluniau Cymunedol ac Adfywio | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae capasiti yn gyfyngedig, ond rydym yn canolbwyntio ar gyflawni trwy bartneriaethau i wneud y mwyaf o gyrhaeddiad a budd. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys cefnogi cyflawni Cynlluniau Lle, Cynlluniau Kickstarter, a Chynlluniau Cymunedol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gwella Addysg | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Gan ddefnyddio data cymharol â data cyhoeddedig Estyn ar gyfer 23-24, mae proffil Estyn Conwy yn parhau i fod yn ffafriol. Gosodwyd 1 ysgol i gael adolygiad gan Estyn a rhoddwyd 2 mewn Mesurau Arbennig. Mae'r 2 a roddwyd mewn mesur wedi'u ffederaleiddio felly o dan 1 pennaeth/llywodraethwr ac felly gellir eu hystyried fel 1 ysgol. Mae'r ysgol(ion) ffederal mewn Mesurau Arbennig yn cau ar Ebrill 25 ac felly ni fyddant bellach angen camau dilynol, sy'n gadael 1 ysgol angen camau dilynol o'r holl ysgolion yng Nghonwy.<br><br>Mae ysgolion y dyrannwyd cymorth gwell iddynt neu sydd ar gynlluniau cymorth 360 wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan, ac maent hefyd wedi cael canlyniadau cadarnhaol mewn arolygiadau Estyn pan gawsant eu harolygu. Mae'r patrwm hwn yn parhau i 2024 i 2025 (er na fydd data cymharol yn cael ei gyhoeddi gan Estyn tan fis Chwefror 2026). Er gwybodaeth, nid yw'r un o'r ysgolion a roddwyd cymorth gwell / cynlluniau cymorth 360 iddynt yn 2023 i 2024 neu yn 2024 i 2025 hyd yma wedi cael eu nodi fel bod angen camau dilynol.<br><br>Mae adroddiad manwl ar gynnydd ysgolion yn 2023 i 2024 wedi'i ysgrifennu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Mai. |
| Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Rydym ar y trywydd iawn i drosglwyddo pob dysgwr i'r system ADY erbyn 31 Awst 2025. Mae'r holl adolygiadau wedi'u cwblhau ac mae'r tîm bellach yng nghyfnodau olaf cwblhau'r holl waith papur perthnasol. Mae'r cyfnod trosglwyddo wedi effeithio ar ymyrraeth gynnar a chymorth i ddisgyblion ac mae pryder y bydd y prosesau deddfwriaethol newydd, dyletswyddau statudol cynyddol, ac ystod gynyddol o ddysgwyr y mae gennym gyfrifoldeb amdanynt bellach yn effeithio ar gapasiti. Mae data'n dangos bod Conwy wedi symud o gynnal 498 o gynlluniau yn 2023 i 729 ym mis Ionawr 2025, sy'n gynnydd sylweddol. Mae'r tîm yn parhau i fonitro'r effaith hon a gweithio ar ddatblygu prosesau i leihau'r goblygiadau o ran adnoddau gweinyddol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o'r ddeddfwriaeth yng ngoleuni rhai o'r heriau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, ac mae Conwy wedi bwydo i'r adolygiad hwn. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Llwybrau i Gyflogaeth | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Prosiect (a ariennir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU) wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i nifer sylweddol o bobl leol a oedd am wella eu sgiliau. Mae wedi helpu llawer o'r bobl hynny i wneud cynnydd tuag at gael gwaith, ac mae bron i chwarter y rhai a gwblhaodd gwrs yn llwyddiannus bellach mewn gwaith yn dilyn y cwrs hwnnw.<br>Mae uchafbwyntiau'n cynnwys 674 o bobl leol wedi cofrestru ar gyfer y cynllun; derbyniodd 435 o bobl leol a ddechreuodd gwrs fewnbwn o'r cwrs hwnnw i wella eu sgiliau; cwblhaodd 389 o bobl leol gwrs yn llwyddiannus; enillodd 212 o bobl leol gymhwyster neu drwydded; a helpodd y prosiect o leiaf 94 o bobl leol i gael gwaith.<br>Mae'n debygol y bydd y nifer sy'n cael cyflogaeth yn uwch, gan nad yw wedi bod yn bosibl canfod statws swyddi presennol nifer sylweddol o gyfranogwyr. Rydym yn aros am gadarnhad o estyniad i'r prosiect hwn. |
| Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu â 209 o bobl 16 i 19 oed. Mae 116 wedi bod yn chwilio am swydd, a chyflwynwyd 3 chwrs Symud Ymlaen.<br>Fe wnaethom hefyd gyflwyno menter drawsnewidiol newydd o'r enw rhaglen GROW. Wedi'i chyflwyno dros chwe wythnos yng Nghlwb Ieuenctid Abergele, cynigiodd hyn sesiynau hyfforddi byr, uniongyrchol a phwrpasol ddwywaith yr wythnos i x 12 cyfranogwr.<br>Gyda chyllid wedi'i sicrhau gan Gronfa Pobl a Sgiliau Conwy o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU: roeddem yn gallu gweithio mewn partneriaeth â Gweithredu yn y Gymuned Abergele a The Little Learning Company er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc gwblhau dyfarniadau achrededig i weithio yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a gofal plant, yn cynnwys gwasanaeth i gwsmeriaid, cymorth cyntaf paediatrig, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, hylendid bwyd ac ymwybyddiaeth alergenau. Cyflawnwyd mwy na 70 o achrediadau ar draws y grŵp, a rhoddodd yr holl gyfranogwyr sgôr o 10/10 i'r cwrs ar eu ffurflenni adborth. Mae'r rhaglen eisoes wedi cael effaith ar eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol, gyda 4 yn mynd yn syth i gyflogaeth a 7 cyfranogwr yn cael eu cyfeirio at fentoriaid y Canolbwynt am gefnogaeth swydd barhaus. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Bargen Dwf Gogledd Cymru | Oren<br><br>O fewn goddefiant | Mae gan Gonwy gynrychiolaeth dda yn rhaglenni a phrosiectau Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r gynrychiolaeth hon yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau'r sir a'r rhanbarth yn cael sylw effeithiol.<br><br>Nod Uchelgais Gogledd Cymru yw sbarduno twf economaidd a gwella seilwaith, sgiliau ac arloesedd ar draws Gogledd Cymru. Mae cael cynrychiolaeth gref yn golygu y gall y sir elwa o'r mentrau hyn a chyfrannu at lunio dyfodol y rhanbarth.<br><br>Rydym yn rhan o'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth (TTN) yng Ngogledd Cymru lle mae Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai wedi arwyddo cytundeb ariannu gwerth £4.43 miliwn, a fydd yn datgloi buddsoddiad o £19 miliwn mewn hyfforddiant o safon fyd-eang a chyfleusterau trosglwyddo gwybodaeth ar draws pum lleoliad yng Ngogledd Cymru, gyda buddsoddiad yng Nghampws Llandrillo yma yn y sir. |

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
| --- | --- | --- |
| Strategaeth Twf Economaidd Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni cynllun gweithredu'r Strategaeth Twf Economaidd. Nawr, wyth mlynedd i mewn i'r strategaeth deng mlynedd, rydym yn falch o allu adrodd bod y rhaglen wedi'i chwblhau i 79%, sy'n adlewyrchu cynnydd sylweddol o 23% ers mis Ebrill 2024.<br>• Twf Economaidd: Cymerwyd camau breision, gyda llawer o brosiectau ar fin cael eu cwblhau ac yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd lleol.<br>• Datblygiadau Twristiaeth: Mae mentrau fel y Rhwydwaith TALENT Twristiaeth a Gweithgareddau Rhwydweithio Llysgenhadon yn gwella proffil a gweithlu'r sector.<br>• Gwelliannau Isadeiledd: Mae prosiectau megis adnewyddu Venue Cymru a'r Colonadau ar y gweill, gyda'r nod o hybu mwynderau lleol ac economi gyda'r nos.<br>• Cynaliadwyedd: Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy diwygiedig yn cyd-fynd â strategaethau twristiaeth gynaliadwy ehangach, gan bwysleisio twf cytbwys.<br>• Ymgysylltu â'r Gymuned: Mae ymdrechion i gynnwys busnesau a thrigolion lleol mewn amrywiol brosiectau yn meithrin amgylchedd cydweithredol.<br>Bod crynodeb blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill 2025 i adolygu'r cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r Strategaeth. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Strategaeth Creu Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, cynhaliwyd Gwerthusiad Effaith Gymdeithasol i ddangos tystiolaeth o effaith Creu Conwy. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu defnyddio i lywio a llunio dulliau yn y dyfodol. Gellir gweld animeiddiad sy'n crynhoi'r adroddiad yma.<br>Mae cysylltiadau Presgripsiynu Cymdeithasol ac Iechyd yn parhau i gael eu datblygu. Cyflwynwyd y prosiect peilot Taith – Teithiau creadigol at les mewn partneriaeth â Mind Conwy a'r Tîm Lles Meddwl. Nododd 93% o'r ymatebion i arolwg y prosiect gynnydd yn eu lle ar ôl cymryd rhan yn y prosiect.<br>Mae gweithio ar y cyd drwy bartneriaeth Creu Conwy a Thimau Trefi yn parhau i fod yn allweddol. Mae Timau Trefi Creu Conwy yn cyflawni cynlluniau gweithredu ac yn cysylltu'n agos â chynlluniau bro, cymuned ac adfywio. O 39 o ymatebion arolwg partneriaid, mae 82% o bartneriaid yn credu bod gweithgareddau Creu Conwy wedi cefnogi adfywio diwylliannol; mae 69% o bartneriaid yn credu bod Creu Conwy wedi cefnogi hunaniaeth / cryfhau ymdeimlad o le; mae 71% o bartneriaid yn credu y bydd gan weithgareddau Creu Conwy y maent wedi bod yn rhan ohono effaith neu etifeddiaeth barhaol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cyflawni Cynlluniau Bro | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi parhau i hyrwyddo Cynlluniau Bro i gymunedau yng Nghonwy. Rydym wedi gweithio gyda Chymorth Cynllunio Cymru (PAW) i gynhyrchu canllawiau ar gyfer cynlluniau bro i'w hasesu a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae fersiwn ddrafft yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac mae'n debygol o arwain at adolygiad o'r Canllawiau Cynlluniau Bro presennol fel eu bod yn cyd-fynd.<br>Mae grŵp Rhwydwaith y Cynlluniau Bro newydd gwblhau eu blwyddyn gyntaf o fodolaeth ac yn mynd o nerth i nerth. Maent wedi bod yn rhan weithredol o'r gwaith i gynhyrchu'r Canllawiau CCA. Mae Bae Colwyn yn parhau i wthio ymlaen â'u Cynllun Bro a 6 gweithgor. Mae rheolwr y Cynllun Bro bellach wedi bod yn ei swydd ers 6 mis ac mae digwyddiad manwerthu wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Mai 2025.<br>Mae Llais TBC yn Nhowyn a Bae Cinmel bellach wedi'i ddiddymu, gyda'r Cynllun Bro yn cael ei oruchwylio gan y Cyngor Tref. Mae cylch gorchwyl newydd a pholisi cyd-etholiad wedi'u cymeradwyo.<br>Mae Abergele wedi gweld cynnydd mewn ymgysylltiad cymunedol, gyda llawer o waith cefndirol ar y gweill, gan gynnwys adolygu'r cynllun ac edrych ar sut y gellir ei ddiweddaru neu ei addasu i wasanaethu'r gymuned yn well. |
| Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Roedd lansio Cynllun diwygiedig Rheoli Cyrchfan Conwy ym mis Tachwedd 2023 yn gam sylweddol ymlaen i dwristiaeth yng Nghonwy. Mae alinio'r cynllun hwn gyda Strategaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn dangos ymrwymiad cryf i dwristiaeth gynaliadwy a chydweithio rhanbarthol. Mae’r cynllun yn nodi 11 amcan er mwyn sicrhau bod y Sir yn parhau i fod yn gyrchfan dwristiaeth sy’n ffynnu, tra hefyd yn ystyried cynaliadwyedd y gyrchfan. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion hynny, rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu a byddwn yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer hyn ym mis Ebrill 2025. |

## 3.3 Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 3.3.1. Digwyddiadau Diwylliannol a Chefnogi Amrywiaeth

Cyn Mis Hanes Pobl Dduon, siaradom ag amrywiaeth o arweinwyr addysgol lleol am bwysigrwydd Mis Hanes Pobl Dduon a thema eleni o Adfer Naratifau, a oedd yn ceisio taflu goleuni ar straeon ffigurau adnabyddus a anwybyddwyd yn flaenorol. Cynhaliodd Llyfrgell Bae Colwyn arddangosfa a oedd yn archwilio ac yn ail-ddychmygu straeon Tŷ Congo / Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn; a chynhaliodd ein Swyddfeydd yng Nghoed Pella arddangosfa o'r enw Pobl Fel Ni a oedd yn tynnu sylw at ba mor gyfoethog yw rhannu ac arddangos hanes diwylliannol Cymru.

Fel cyngor, rydym wedi bod yn gweithio gydag Ymgynghorydd Hyfforddiant Amrywiaeth a Rheolaeth Rhyngwladol i ddarparu hyfforddiant cychwynnol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi ymdrechu i nodi digwyddiadau diwylliannol a hanesyddol o bwys sy'n dathlu amrywiaeth ac undod, fel Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia a Diwrnod Dathlu Trawsrywedd. Rydym yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i rannu gwybodaeth gyda'n staff nid yn unig am ble i geisio cefnogaeth, ond hefyd y camau y gallwn ni i gyd eu cymryd i helpu i frwydro yn erbyn anoddefgarwch tuag at eraill. Yn ystod Eid al Fitr, hyrwyddodd ein llyfrgellwyr amrywiaeth o lyfrau i helpu i nodi Eid, gan gynnwys, “The Ramadan Cookbook: 80 delicious recipes perfect for Ramadan, Eid and celebrating throughout the year.” Gellir cael mynediad at ein Catalog Llyfrgell drwy'r ddolen hon: Llyfrgelloedd Conwy | Catalog Llyfrgell

### 3.3.2. Llwybr Alys Llandudno

Cafodd Llwybr Alys yn Llandudno ei ail-lansio’n swyddogol ym mis Mawrth wrth i Faer Tref Llandudno a Miss Alys dorri’r rhuban wrth Fwrdd yr Hetiwr Hurt ar ei newydd wedd yn y Fach. Mae'r llwybr unigryw yn dathlu Anturiaethau Alys yng Ngwlad Hud Lewis Carroll. Sicrhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a gweithiodd gyda chwmni adeiladu RELM i osod y cerfluniau. Cafodd y cerfluniau gwreiddiol yn y Fach eu creu gan y cerflunydd Reece Ingram a chawsant eu comisiynu yn 2000 yn rhan o Brosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Cawsant eu hadnewyddu yn 2013 a chafodd cerfluniau newydd eu hychwanegu yng nghanol y dref i greu’r llwybr enwog, ‘Llwybr y Gwningen Wen’. Ers cael eu hadnewyddu ddiwethaf, roedd y cerfluniau ar hyd y llwybr wedi dechrau dirywio, ac yn anffodus, roedd y cerfluniau oedd yn y Fach wedi’u difrodi’n arw gan stormydd. O ganlyniad, mae’r cerfluniau yn y Fach yn cael eu newid am rai newydd wedi’u cerfio gan y saer coed adnabyddus, Simon Hedger. Cafodd gwesteion yn y digwyddiad ail-lansio weld y cerfluniau'n cael eu bywiogi gan

dalentau Magic Light Productions. Yn cyd-fynd â 160 mlwyddiant cyhoeddiad gwreiddiol Alice in Wonderland, mae Llwybr Alys ar ei newydd wedd yn gyfle i ymwelwyr a rhai sy’n hoffi llenyddiaeth ymgolli yn y lleoliadau a ysbrydolodd y stori hoffus hon. Mae 34 o bwyntiau o ddiddordeb, ac mae taflen a map Llwybr Alys newydd ar gael i'w prynu o Ganolfan Groeso Llandudno yng Nghanolfan Siopa Fictoria.

### 3.3.3. Trefniadaeth Ysgolion

Ym mis Hydref, adolygodd y Cabinet gynigion i ymgynghori ar ffederaleiddio Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan; ac uno Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod; ac Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen. Ym mis Chwefror, adolygwyd canlyniad yr ymgynghoriadau ar gyfer uno ysgolion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau, cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r hysbysiad statudol i uno'n ffurfiol. Roedd y pwyllgor craffu wedi argymell y dylid ailfuddsoddi arbedion a wireddwyd o uno ysgolion mewn cyllidebau ysgolion; fodd bynnag, er bod y cysyniad wedi'i gefnogi gan y Cabinet, deallwyd y gallai hyn gael effaith ar ein gallu i osod cyllideb gytbwys fel cyngor. Byddai angen ystyried hyn fel rhan o unrhyw newid polisi yn y dyfodol.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Rhagfyr yn cynnig ateb un safle ar gyfer ysgolion Mochdre. Cyflwynwyd y cynnig gan Lywodraethwyr yr ysgol gymunedol newydd a oedd yn teimlo y dylai'r ysgol fod ar un safle. Byddai'n golygu cau Ysgol Babanod Mochdre, gyda'r holl ddisgyblion wedyn yn cael eu haddysgu ar safle Ysgol Cystennin cyn gynted â phosibl, ac ailenwi'r ysgol yn Ysgol Minafon. Mae grant o £42,000 gan Lywodraeth Cymru wedi'i dderbyn i dalu costau'r gwaith dylunio ac arolygu, gyda chais ychwanegol am gyllid yn cael ei wneud i dalu am y gwaith, a disgwylir i’r costau hynny fod yn isel gan fod dosbarthiadau eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer disgyblion sy'n symud draw. Byddai cyllid pontio ar gyfer uno’r ysgolion yn cael ei ddarparu dros gyfnod o 5 mlynedd. Cymeradwyodd y Cabinet y cynnig.

### 3.3.4. Datblygu Canolbwynt Chwaraeon

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, dyfarnodd y Cabinet gontract ar gyfer datblygu Canolbwynt Chwaraeon Ysgol y Creuddyn, a fydd yn cynnwys cae chwaraeon 3G, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Hydref. Ysgol y Creuddyn yw'r unig ysgol uwchradd yng Nghonwy ar hyn o bryd heb gyfleuster pob tywydd, a gobeithir y bydd hyn yn dod â manteision i'r ysgol a defnyddwyr allanol, fwy na dim ar gyfer lles y plant. Mynegwyd pryder gan y gymuned leol ynghylch y datblygiad, yn enwedig o ran effeithiau

amgylcheddol a llygredd sŵn a golau.  Nodwyd bod mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y dyluniad ar ffurf sgrinio a thirlunio.

### 3.3.5. Gwasanaeth Cerddoriaeth

Cymeradwyodd y Cabinet gynigion ar gyfer datblygu model Gwasanaeth Cerddoriaeth newydd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Fel cyngor, rydym wedi bod yn cyflawni Cynllun Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Gerddoriaeth ers 2022, sy'n cynnwys lleihau rhwystrau i gael mynediad at gerddoriaeth a galluogi plant i ddysgu offeryn, canu, neu greu cerddoriaeth gyda'i gilydd. Fodd bynnag, torrwyd y grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cerddoriaeth yn 2024, ac mae'r cyngor wedi bod yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod darpariaeth addysg gerddoriaeth i ddisgyblion y sir yn cael ei diogelu.  Bydd y datrysiad y cytunwyd arno yn gweld hyfforddiant cerddoriaeth yn cael ei ddarparu trwy fodel arddull cydweithredol, a ddefnyddir mewn nifer o awdurdodau lleol eisoes.  Mantais y trefniant hwn hefyd yw y gellir cael mynediad at ystod o gyllid nad yw ar gael i gynghorau. Bydd plant yng Nghonwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn dal i allu cael mynediad at hyfforddiant cerddoriaeth heb unrhyw gost iddynt. Ystyriwyd y cynigion yn gynharach gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Rhagfyr.

### 3.3.6. Gwella Ysgolion

Ym mis Ionawr 2024, yn dilyn adolygiad Llywodraeth Cymru o gyfeiriad a rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yn y dyfodol, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg ei fwriad i ddiddymu pob consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol.  Yn dilyn ystyriaeth o Fodel Gwasanaeth Gwella Addysg newydd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr, fel cyngor rydym wedi symud ymlaen â'r ymgynghoriadau a'r prosesau ailstrwythuro angenrheidiol i symud swyddogaethau Gwella Ysgolion yn ôl i'r cyngor.  Roedd cam ffurfiol yn hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni derfynu ein cytundeb i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau, a chymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Chwefror.  Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i swyddogion GwE am eu gwaith caled a’u hymroddiad dros y blynyddoedd.

### 3.3.7. Llywodraethu Ysgolion

Yn dilyn cyflwyno Fframwaith Gwella ac Atebolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru, rydym wedi diwygio ein proses ar gyfer penodi Llywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) i

gyrff llywodraethu ysgolion. Mae'r fframwaith yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd eu hunain, eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella, gan gynnwys eu sgiliau a'u profiad eu hunain. Er mwyn sicrhau atebolrwydd, disgwylir i gorff llywodraethu ysgol sicrhau bod ganddo ystod o sgiliau a phrofiadau ar gael. Felly, mae'r broses ar gyfer ethol Llywodraethwyr AALl wedi'i diweddaru i ehangu'r ymgynghoriad ar yr enwebiadau i gynnwys mewnbwn gan benaethiaid i nodi swyddi gwag, bylchau sgiliau / gwybodaeth, ac i roi adborth ar ymgeiswyr posibl. Bydd y newid arfaethedig hefyd yn dod â chydlynu penodiadau Llywodraethwyr AALl i'n Gwasanaethau Addysg ac yn sicrhau cydraddoldeb â phob penodiad llywodraethwr arall. Bydd hyn yn helpu Swyddogion Addysg i gyflawni eu cyfrifoldebau dros sicrhau cydymffurfiaeth a darparu cefnogaeth a her berthnasol i ysgolion mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol. Ystyriwyd y broses ddiwygiedig gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Rhagfyr, a'i chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr.

### 3.3.8. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad ar gynnydd prosiectau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF), lle roedd £24.5 miliwn wedi'i ddyrannu i Gonwy. Nododd yr adroddiad fod prosiectau'n parhau i gyflawni allbynnau a chanlyniadau sy'n fuddiol i bobl ledled y sir a byddant yn gadael etifeddiaeth parhaol i'n trefi, cymunedau a phreswylwyr. Cefnogwyd dros 100 o brosiectau trwy fenter Cronfeydd Allweddol Conwy, gwerth £8 miliwn. Canmolwyd gwaith y Tîm Datblygu Economaidd am gefnogi sefydliadau a grwpiau cymunedol i gael mynediad at y cyllid. Ym mis Chwefror, wrth i ni agosáu at y cyfnod cau, cynyddodd y Cabinet y dyraniad grant uchaf sydd ar gael o dan Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol lle gallai prosiectau ddangos angen dilys. Mae dros 70 o brosiectau wedi cael eu cefnogi trwy'r gronfa hon, gan ddyrannu dros £4 miliwn.

Ym mis Hydref, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau adroddiad diweddaru ar gyllid ar gyfer Swyddfa Cyngor ar Bopeth Conwy (CCAB), yn dilyn tynnu £64,000 yn ôl gan y cyngor. Ers hynny, mae CCAB wedi sicrhau £326,000 mewn arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i'w alluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth cynghori dwyieithog, a fydd yn cynnwys helpu 1,000 o gartrefi i gymryd camau effeithlonrwydd ynni. Bydd y cyllid hefyd yn galluogi CCAB i ddarparu hyfforddiant arbenigol ar y swydd i unigolion, gan gynnig lleoliadau tymor penodol â thâl i 12 o breswylwyr Conwy.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Hydref y byddai cronfa drawsnewid UKSPF ar wahân ar gael, yn ymestyn tan fis Mawrth 2026. Mae £8.2 miliwn wedi'i ddyrannu i Gonwy. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth i geisio cymeradwyaeth i barhau â'r trefniadau gweinyddu presennol, a rhoddwyd y gymeradwyaeth hon. O ystyried terfynau amser byr, cefnogodd Panel UKSPF Conwy brosiectau presennol yn cael y cyfle i ddefnyddio'r cyllid i ymestyn ac esblygu, gyda Chronfeydd Allweddol Conwy yn cael eu defnyddio fel y mecanwaith i brosiectau newydd gael mynediad at y cyllid yn 2025 i 2026.

### 3.3.9. Arwyddion Tref Newydd

Mae gwaith gosod 55 o arwyddion cyfeirio newydd wedi digwydd yn Abergele, Bae Colwyn, Llandudno a Llanrwst. Cawsom gyfanswm o £190,000 o Gronfa Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru, y Gronfa Rheoli Risgiau Arfordirol a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU er mwyn uwchraddio a gosod arwyddion cyfeirio yn y pedair tref ar draws y Sir.

Mae arwyddion cyfeirio yn fath traddodiadol o arwyddion dangos y ffordd, ac maen nhw'n helpu cerddwyr a beicwyr yn bennaf, ond gallant hefyd gynorthwyo gyrwyr sy'n teithio mewn ardaloedd anghyfarwydd neu helpu i leoli atyniadau ymwelwyr mewn trefi. Yn dilyn archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol, ac ar ôl ymgynghori â busnesau lleol a'r gymuned ehangach, dyfarnom gontract i'r gwneuthurwyr arwyddion, DMA Signs, i ddylunio a gosod yr arwyddion newydd.

### 3.3.10 Venue Cymru

Ym mis Chwefror, croesawom y cyhoeddiad y byddai dyfarniad o £10m gan Lywodraeth y DU i Venue Cymru yn mynd rhagddo, yn amodol ar gyflwyno achos busnes llawn. Bydd hyn yn ein helpu i ehangu cynnig diwylliannol y safle, gan gynnwys gwelliannau i'r awditoriwm a'r cyntedd i wella profiad yr ymwelwyr, ac i ddarparu cyfleusterau ar gyfer y diwydiannau creadigol. Byddwn nawr yn mynd trwy broses gynllunio bellach a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar gwmpas llawn y prosiect wrth i ni gael mwy o fanylion. Bydd y cynlluniau'n ystyried y cyllid sydd ar gael a'r cynnydd mewn costau ers i'r cyflwyniad cyntaf gael ei wneud i Lywodraeth y DU. Ymhlith yr ystyriaethau fydd moderneiddio isadeiledd technegol a seddi'r theatr, ymestyn yr adeilad er mwyn darparu Canolbwynt Creadigol a chyfleusterau cymunedol newydd, a'r posibilrwydd o symud llyfrgell yr ardal er mwyn diogelu'r gwasanaeth mewn cyfnod o bwysau ariannol difrifol.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Economi a Lle, codwyd cwestiwn ynghylch effaith economaidd adleoli'r llyfrgell, gan fod pryder y gallai hyn arwain at 170,000 yn llai o ymweliadau â'r stryd fawr.  Rhoddwyd sicrwydd y byddai adroddiad ar gynlluniau i ddatblygu Venue Cymru yn ganolfan ddiwylliant yn cael ei gyflwyno i'r ddemocratiaeth maes o law. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o gyllidebau, effeithiau ar ddefnyddwyr a'r ardal ehangach, ymatebion diweddar i ymgynghoriadau llyfrgelloedd, a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

### 3.3.11. Bargen Dwf Gogledd Cymru

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad chwarterol ar Fargen Dwf Gogledd Cymru.  Nodwyd bod yr achos busnes llawn ar gyfer cyn brosiect Ysbyty Gogledd Cymru wedi'i gymeradwyo; bod adeiladu'r Ganolfan Menter, Peirianneg ac Opteg yn mynd rhagddo'n dda; a bod cyflawni tair ffrwd waith a ariannwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi dechrau.  Adroddwyd y chwe phrosiect canlynol fel statws coch oherwydd naill ai risgiau i gwmpas y prosiect neu oedi sylweddol yn amserlenni'r prosiect.

- Cysylltu'r ychydig % olaf.
- Trawsfynydd.
- Cynllun Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy
- Canolbwynt Hydrogen Caergybi
- Stiwdios Cinmel
- Canolfan Economi Gwledig Glynllifon.

O ran Prosiect Stiwdio Cinmel, nodwyd yn ystod y cyfarfod fod cyfarfodydd cadarnhaol wedi'u cynnal a byddai achos busnes newydd yn cael ei gyflwyno i symud y gwaith ymlaen.

Ym mis Mawrth, rhoddodd y Cabinet ei gymeradwyaeth i drosglwyddo cyfrifoldeb am Fargen Dwf Gogledd Cymru o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (NWCJC).  Gan fod aelodaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yn debyg, mae'r symudiad yn ceisio osgoi amlhau cyrff rhanbarthol â swyddogaethau tebyg, ac yn ogystal â hynny bydd manteision cyfreithiol a gweithredol bod Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yn gorff corfforaethol ei hun o fudd.

### 3.3.12 Cyngor yr Ifanc

Mynychodd pum aelod o Gyngor yr Ifanc Conwy i'r Ŵyl Cymru Ifanc flynyddol ym mis Tachwedd. Trefnwyd y digwyddiad gan Plant yng Nghymru, sef y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Roedd y pum person ifanc oedd yn fyfyrwyr oedd Ysgol Eirias, Ysgol Creuddyn, Ysgol Dyffryn Conwy, a Choleg Llandrillo a chawsant gyfarfod â Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, a chymryd rhan mewn cyfarfod fideo gyda Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Dawn Bowden. Cawsant hefyd gymryd rhan mewn gweithdai ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys cyfiawnder cymdeithasol, newid hinsawdd, addysg a hyfforddiant, iechyd meddwl a lles, a diogelwch ar-lein.

Mae Cyngor yr Ifanc Conwy yn rhoi cyfle i bobl ifanc leisio eu barn a gwneud penderfyniadau am brosiectau i wella bywyd holl blant a phobl ifanc Sir Conwy. Mae gwybodaeth am Wasanaeth Ieuenctid Conwy ar gael ar ein gwefan.

### 3.3.13 Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg a Chyflogaeth

Ym mis Hydref, cyhoeddwyd astudiaeth achos o sut y gwnaeth partneriaeth rhwng Canolbwynt Cyflogaeth Conwy, TRAC a Hyfforddiant WOW helpu 15 o bobl ifanc oedd wedi ymddieithrio o addysg. Cynhaliwyd cwrs tridiau i roi dealltwriaeth i'r grŵp o'r hyn sydd ei angen i weithio yn y diwydiant adeiladu, yn ogystal â chymryd profion mewn Ymwybyddiaeth Asbestos, Diogelwch Ysgolion, Gweithio ar Uchder, Codi a Symud yn Gorfforol, Iechyd a Diogelwch a'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu. Pasiodd pob un o'r 15 y tystysgrifau angenrheidiol, ac aeth 13 ymlaen i gofrestru yn y coleg, tra bod y ddau sy'n weddill wedi symud i gyflogaeth amser llawn. Cefnogwyd y prosiect trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU trwy Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Conwy. Mae'r astudiaeth achos yn werth ei darllen, ac mae ar gael ar ein gwefan.

Hefyd ym mis Hydref, daeth dros 140 o bobl ifanc i'r digwyddiad 'Gwella eich Dyfodol' oedd wedi'i drefnu trwy Wasanaeth Ieuenctid, Ymgysylltu a Pherthyn Conwy yn Swyddfeydd Coed Pella ym Mae Colwyn. Roedd y digwyddiad yn cynnig cymorth a chyngor i bobl ifanc am lu o bynciau, yn cynnwys gwaith a hyfforddiant, budd-daliadau, tai a lles. Roedd yr arddangoswyr yn cynnwys Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, Coleg Llandrillo Menai, Youth Shedz Abergele, Canolbwynt Cyflogaeth Conwy, Gyrfa Cymru, Viva LGBT+ a Gofalwyr Ifanc.

Fel cyngor, roeddem yn falch o gael ein dewis fel un o bedwar awdurdod lleol Cymru i gymryd rhan yn rhaglen arloesol ‘Llwybrau at Gynllunio’ y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae’r cynllun yn cynnig swydd i rai sydd wedi graddio’n ddiweddar mewn adrannau cynllunio llywodraeth leol i ennill profiad a chymwysterau gwerthfawr. Mae unigolyn graddedig yn ymuno â Chonwy ar gontract tair blynedd a bydd yn ennill profiad ymarferol wrth astudio ar gyfer gradd meistr achrededig y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Darparwyd cyllid ar gyfer y rhaglen beilot gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyn iddynt gael eu cyfweld gan y Cyngor, roedd yr ymgeiswyr eisoes wedi bod drwy broses recriwtio drylwyr, gydag 850 o ymgeiswyr yn gwneud cais am swyddi yng Nghymru a Lloegr. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun Llwybrau at Gynllunio ar gael ar wefan y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Rydym yn awyddus i ddatblygu llwybrau gyrfa i weithwyr, boed hynny ar gyfer graddedigion neu unigolion sy’n gadael yr ysgol. Gall y pecynnau gynnwys rhaglenni sy’n cynnig profiad a hyfforddiant, a chyfleoedd i weld llwybr pendant o ran dilyniant gyrfa. Am ragor o wybodaeth am yrfaoedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ewch i Gweithio i Gonwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### 3.3.14. Fforymau Ardal

Yn gynharach yn y flwyddyn, roedd y Cabinet wedi cytuno i uno gwaith Rhaglenni Adfywio Trefi i'r Fforymau Ardal. Wedi hynny, cyflwynodd swyddogion y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y fforymau, gan gynnwys cyfeiriad at brosiectau adfywio ac aelodau’r Byrddau Rhaglen Adfywio Trefi. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Hydref.

### 3.3.15. Hysbysiad o Gynnig – Ystâd y Goron

Mewn cyfarfod o'r Cyngor ym mis Ionawr, cyflwynwyd Hysbysiad o Gynnig yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli rheolaeth dros yr holl asedau a gedwir gan Ystâd y Goron yng Nghymru ac oddi ar ei harfordir i Lywodraeth Cymru, gyda llif refeniw'r asedau hyn yn dod yn gyfan gwbl i goffrau Llywodraeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru gael yr hawl i'w ddefnyddio fel y dymuna. Gobeithiwyd y gellid defnyddio'r arian ychwanegol i ariannu awdurdodau lleol yn decach mewn cyfnod o gyni ariannol difrifol. Cefnogodd y Cynghorwyr y penderfyniad y dylai'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu cefnogaeth y cyngor i berswadio San Steffan i ddatganoli Ystâd y Goron fel mater o frys.

### 3.3.16. Strategaeth Digwyddiadau a Ffilmio

Ym mis Mawrth, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle adroddiad ar gyfer Strategaeth Digwyddiadau a Ffilmio ar gyfer 2025 i 2030. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli pedwerydd Strategaeth Digwyddiadau Conwy ers 2009, gan gydnabod bod gweithgaredd digwyddiadau yn gyfrwng hynod effeithiol ar gyfer cyflawni ystod eang o amcanion polisi, o gefnogi Nodau Lles mewn cymunedau ledled y sir, i greu cynnwys marchnata sy'n sbarduno effaith economaidd drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon yn nodi newid sylweddol i ni fel cyngor, gan ein bod bellach yn ceisio darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i drefnwyr digwyddiadau gan helpu i sicrhau bod y digwyddiadau sy'n digwydd yn y sir yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n broffesiynol, a bod Conwy yn cael ei gydnabod fel cyrchfan hawdd i gynnal digwyddiadau. Yn benodol, mae'r ffordd yr ydym yn rheoli ein rhyngweithio â ffilm a theledu wedi'i chyflwyno o fewn y strategaeth, gan gydnabod gwerth uchel y diwydiannau creadigol i'r sir. Bydd ein Swyddfa Ffilm newydd bellach yn cymryd yr awenau ar reoli a chydlynu ymholiadau ffilmio. Croesawodd yr aelodau gyfeiriad strategol y Strategaeth a chydnabod pwysigrwydd cael ei gydnabod fel cyrchfan hawdd i gynnal digwyddiadau a denu ymholiadau ffilm.

### 3.3.17. Cronfa Ragoriaeth Conwy

Cyhoeddom rownd bellach o gyllid grant ar gyfer pobl dalentog mewn chwaraeon, addysg a'r celfyddydau ym mis Ionawr. Mae Cronfa Ragoriaeth Conwy yn cynnig cymorth grant i rai o dan 30 oed sydd un ai'n cystadlu ar lefel genedlaethol mewn chwaraeon neu sy'n dalentog yn y maes celfyddydau, dawns, cerddoriaeth, drama ac addysg.

### 3.3.18. Diogelwch Traffig – Tramffordd y Gogarth

Gydag ailagor Tramffordd y Gogarth ar gyfer y cyfnod haf ym mis Mawrth, fe wnaethom apelio ar fodurwyr i roi sylw i gyfyngiadau mynediad ar hyd yr Hen Ffordd. Mae'r Dramffordd yn atyniad twristaidd hynod boblogaidd ac mae dros 40 o dramiau'r dydd yn teithio'r llwybr i fyny'r Gogarth. Mae diogelwch y cyhoedd yn flaenoriaeth uchel a gofynnwn i yrwyr roi sylw i'r ffordd, yn enwedig y croesfannau, a gofynnwn i yrwyr gymryd gofal wrth negodi'r traciau.

### 3.3.19. Diogelu Preswylwyr ac Ymwelwyr – Sgamiau Parcio

Ym mis Chwefror, fe wnaethom rybuddio preswylwyr i fod yn wyliadwrus o sgamiau cod QR parcio, ar ôl dod o hyd i godau QR twyllodrus ar fesuryddion parcio ar bromenâd

Llandudno.  Mae’r wefan ffug y mae’r cod QR yn arwain ati yn dwyn manylion talu. Fel cyngor, nid ydym yn defnyddio codau QR ar gyfer unrhyw daliadau yn ein meysydd parcio, gan fod preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu talu ag arian parod, cerdyn, ffôn neu drwy'r ap PayByPhone swyddogol.

### 3.3.20. Ffioedd Parcio

Ym mis Mawrth, cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle i ystyried galw penderfyniad dirprwyedig i mewn yn ymwneud â ffioedd parcio, gan ofyn yn benodol am ffi is ar Bromenâd Hen Golwyn lle nad oedd tâl wedi bodoli o'r blaen.  Esboniodd yr Aelod Cabinet fod ymgynghoriad wedi bod ar y mater hwn, a oedd wedi'i ymestyn i ystyried y pryderon a godwyd, a bod nifer o gonsesiynau eisoes wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad.  Mae'r ffioedd newydd hefyd yn glynu wrth y Strategaeth Barcio a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2016, ac mae'n gyson ag ardal gyfan Bae Colwyn a Thraeth y Gogledd Llandudno gyda chyfyngiadau'n berthnasol dim ond pan fo'r galw'n debygol o fod ar ei uchaf (gan fod am ddim ar bob adeg arall).  Serch hynny, gofynnodd y pwyllgor am ymgynghoriad pellach gydag Aelodau Lleol.

## Nod 4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy, priodol ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 4.

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 4.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cymdeithasol cyffredin ar hyn o bryd yn 1,561, i lawr o 1,951 yn flwyddyn flaenorol.  Nid yw hyn yn ymwneud â gostyngiad yn y galw, ond yn hytrach â chanlyniadau ymarfer adolygu achos helaeth a gynhaliwyd gan Dîm y Gofrestr Tai rhwng 2024 a 2025.

Roedd nifer yr aelwydydd mewn perygl o brofi digartrefedd yn cysylltu â Datrysiadau Tai i ofyn am gymorth ar ddiwedd 2024 i 2025 yn 1564.  Rydym wedi cynnal cyfradd atal o 83%, uwchlaw ein targed o 80%, a gwelliant ar 77% ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

Mae nifer yr aelwydydd a gefnogir i fyw'n annibynnol trwy Grant Cymorth Tai yn 2665, i fyny o 2317 yn y cyfnod blaenorol.

Rydym wedi cynnal ein perfformiad ar gyfer tai gwag a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd o fewn 12 mis, gyda 79 yn cael eu dwyn ymlaen yn 2024 i 2025.  Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r 5 mlynedd blaenorol, lle'r oeddem yn hanesyddol yn cyfartaleddu tua 32 o dai bob blwyddyn.  Fe wnaethon ni hefyd wella ychydig ar y nifer a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd wedi bod dros 12 mis yn wag, o 56 i 58 yn ystod 2024 i 2025. Crëwyd 6 o unedau tai hollol newydd trwy dai gwag yn ystod y flwyddyn.

Daethpwyd â 83 o anheddau newydd ymlaen yn ystod 2024 i 2025, i lawr o 142 y flwyddyn flaenorol. Daw safleoedd mawr o 10 neu fwy o dai ymlaen ar wahanol derfynau amser, ac yn enwedig gyda safleoedd o 50+ gallant fod yn gylchol gyda, er enghraifft, 2 flynedd ar gyfer cynllunio a gwaith tir ac yna 2 flynedd arall gyda chwblhau'r tai.  Mae gennym lawer o ddatblygiadau mawr yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ond gwelsom gymharol ychydig yn cael eu cwblhau yn 2024 i 2025.  Rydym yn disgwyl dros 200 o dai wedi'u cwblhau ar safleoedd mawr yn unig yn 2025 i 2026, gyda thai ychwanegol yn cael eu cwblhau ar safleoedd bach (1 i 9 annedd).

Rydym yn datblygu dangosydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gefnogi'r nod hwn. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar arolwg ymgysylltu blynyddol â budd-ddeiliaid.

Rydym yn aros am ddata a gyhoeddwyd yn genedlaethol ar gyfer ein mesur Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a dreulir mewn llety gwely a brecwast wedi cynyddu i 175.7, i fyny o 145.6 y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ddemograffeg newidiol a'r gostyngiad yn nifer y teuluoedd sy'n cael eu cartrefu mewn llety gwely a brecwast. Mae aelwydydd sengl yn cyfrif am 90% o'r defnydd gwely a brecwast a'r rhain yw'r rhai mwyaf heriol i sicrhau symud ymlaen amserol oherwydd diffyg cyfatebiaeth difrifol yn y cyflenwad a'r galw. Eleni gallwn weld amrywiaeth sylweddol yn hyd arhosiad yn dibynnu ar faint yr eiddo sydd ei angen.

Mae gostyngiad wedi bod yn nifer cyfartalog y dyddiau a dreuliodd aelwydydd digartref ym mhob math arall o lety dros dro o 616.5 i 528.6. Mae cefnogaeth 'symud ymlaen' wedi bod yn ffocws trwy swyddi a ariennir gan grant yn gweithio mewn llety ar brydles, llety gwely a brecwast, ac mae eiddo'r Rhaglen Gyfalaf Llety Pontio sy'n dod i ddefnydd hefyd yn darparu opsiynau ychwanegol. Bydd y cyfartaledd wedi'i effeithio gan gynnydd mewn symud ymlaen drwy osod tai cymdeithasol yn uniongyrchol ar gyfer cartrefi dwy ystafell wely, gyda nifer o achosion yn aros o dan 6 mis.

Mae nifer yr aelwydydd mewn llety gwely a brecwast (225, i lawr o 228) a phob math o lety dros dro (354, i lawr o 357) ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r tro cyntaf ers 2020 nad oes cynnydd wedi bod yn y ffigurau hyn ar gyfer llety gwely a brecwast a phob math o lety dros dro.

Mae data yn yr arfaeth ar gyfer y rhaglen tai fforddiadwy newydd a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP).

### 4.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr am dai cymdeithasol ar y gofrestr tai cyffredin - **Cyfrif yn unig** | 1922 | 1951 | 1925 | 1561 |
| Nifer yr aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n profi digartrefedd sy'n cysylltu â Datrysiadau Tai i ofyn am gymorth – **Cyfrif yn Unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 1564 |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 80%; Trothwy Goddefiant: 70%** | 82.43%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 77.22%<br>Coch<br>Gwaeth | 82.95<br>Gwyrdd<br>Gwell | 82.8<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Nifer yr aelwydydd a gefnogir i fyw'n annibynnol trwy gyllid Grant Cymorth Tai – **Cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 2317 | 2665 |

### 4.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer o eiddo gwag yn y sector breifat sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ac sydd wedi dychwelyd i ddefnydd preswyl yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 78<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | 79<br>Amherthnasol<br>Gwell |
| Nifer yr eiddo gwag yn y sector preifat a oedd yn wag am fwy na 12 mis a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 56<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | 58<br>Amherthnasol<br>Gwell |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unedau tai newydd a grëwyd trwy ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd – **Cyfrif yn Unig** | 0 | 6 |
| Cyfanswm nifer yr anheddau newydd – **Cyfrif yn Unig** | 142 | 83 |
| Dangosydd Llais Budd-ddeiliaid – yn cael ei ddatblygu | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 4.1.3. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr anheddau sydd wedi'u gwella gyda grant cyfleusterau i'r anabl - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100; Trothwy Goddefiant: 80** | Aros am ddata | Aros am ddata | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast - **Cyfrif yn Unig** | 152.64 | 145.65 | 172.36 | 175.70 |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a dreuliodd pob aelwyd ddigartref mewn pob math arall o lety dros dro - **Cyfrif yn Unig** | Dim data | 616.5 | 531.2 | 528.6 |

### 4.1.5. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer yr aelwydydd mewn llety Gwely a Brecwast ar ddiwedd y cyfnod – **Cyfrif yn Unig** | 228 | 225 |
| Nifer yr aelwydydd ym mhob math o lety dros dro ar ddiwedd y cyfnod – **Cyfrif yn Unig** | 357 | 354 |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a ariennir trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro | 51<br>Coch<br>Gwell | Aros am ddata |

| | | |
|---|---|---|
| (TACP)) a ddarperir yn ôl maint a deiliadaeth<br>**Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 100; Trothwy Goddefiant: 81** | | |

## 4.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae wyth cam gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae chwech ar y trywydd iawn a dau o fewn y goddefiant.

### 4.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| Rhaglen Tai a Digartrefedd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Rhaglen yn cynnwys 3 phrosiect: Tai Fforddiadwy (Safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor), Ansawdd Tai, Addasu a Chaffael a'r Prosiect Gwella Gwasanaethau Tai. Mae'r 3 phrosiect yn cyflawni eu hamcanion a'u buddion ar amser. Prif amcanion y rhaglen yw cynyddu argaeledd tai fforddiadwy, a lleihau'r defnydd o lety dros dro / gwella ei ansawdd yn y cyfamser. Ers sefydlu'r rhaglen, mae'r ddau amcan hyn ar y trywydd iawn i'w cyflawni gyda gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| Strategaeth Tai | Oren<br>O fewn goddefiant | Cyhoeddwyd y Strategaeth Tai Lleol pum mlynedd yn 2018. Adolygwyd a chyhoeddwyd cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn 2025. Bydd y strategaeth wedi'i diweddaru yn cael ei hailenwi'n Strategaeth Tai a Digartrefedd, a bydd yn cynnwys cynlluniau strategol ar draws y gwasanaeth, gan ddileu'r angen am Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar wahân, Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai, a Strategaeth Cartrefi Gwag.<br>Mae sesiynau ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar y gweill, a disgwylir i'r strategaeth ddrafft gael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yn gynnar yn 2026. |
| Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyhoeddwyd y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym pum mlynedd yn 2022, ac adolygwyd y cynnydd yn erbyn y cynllun ym mis Gorffennaf 2024. Bydd yn cael ei ddisodli yn 2026 gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd. |
| Rhaglen Cymorth Tai | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyhoeddwyd Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai pedair blynedd yn 2022 a'i diweddaru yn 2024, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd yn cael ei ddisodli yn 2026 gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Strategaeth Cartrefi Gwag | Oren<br>O fewn goddefiant | Cyhoeddwyd y Strategaeth Cartrefi Gwag pum mlynedd yn 2019. Adolygwyd a chyhoeddwyd cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn 2024. Bydd yn cael ei ddisodli yn 2026 gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd. |
| Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar y trywydd iawn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn yr haf, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor ym mis Gorffennaf 2025. |
| Tai Fforddiadwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi hawlio £17.6m o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chaffael tai fforddiadwy newydd yn 2024/25. Mae hyn yn cynnwys £12.5m o Grant Tai Cymdeithasol (SHG), a £5.1m ar gyfer Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP). Mae 37 o unedau tai fforddiadwy newydd wedi'u sicrhau o ganlyniad (9 SHG, a 28 TACP).<br>Yn ogystal, mae 30 o gartrefi gwag wedi cael eu hailddefnyddio fel tai fforddiadwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae saith uned wedi ymuno â Chynllun Prydlesu Cymru, cynllun sy'n defnyddio llety'r sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy.<br>Mae cyflenwad tai fforddiadwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn sylweddol isel. Mae'r cyflenwad wedi'i effeithio gan y problemau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu megis cynnydd mewn costau adeiladu a chontractwyr yn wynebu anawsterau ariannol, gan arwain at fusnesau'n mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.<br>Y cyflenwad tai fforddiadwy sydd wedi'i gynllunio trwy'r rhaglen gyfalaf dros y tair blynedd nesaf yw 779 o unedau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Tai Gofal Ychwanegol Colwyn | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ar ôl proses ymgeisio gymhleth, ym mis Rhagfyr 2024 llwyddodd Rhaglen Canolbwynt Iechyd, Lles a Chymuned Bae Colwyn i sicrhau cyllid gan Gronfa Tai gyda Gofal Llywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol / Achos Busnes Amlinellol ar y Cyd. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu hyn, sef y cam nesaf hollbwysig ar gyfer y Rhaglen. Rhagwelir bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2026.<br>Yn sail i'r rhaglen gyfan mae'r manteision addysg a hyfforddiant ehangach y bydd y rhaglen yn eu darparu, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r problemau sylweddol mewn perthynas â recriwtio a chadw staff sy'n cael eu profi ar draws y sector Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gyffredinol. Dros y 10 mis diwethaf, ar y cyd â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r rhaglen wedi gweithredu rhaglen beilot hyfforddi gweithlu yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen beilot wedi cynnwys myfyrwyr lefel 2 a lefel 3 o Goleg Llandrillo yn ymgymryd â lleoliadau gwaith mewn 2 o'n cyfleusterau tai gofal ychwanegol. Mae adborth gan y myfyrwyr presennol a chan y mentoriaid a'r tiwtoriaid wedi bod yn gadarnhaol, gydag un myfyriwr eisoes yn sicrhau rhywfaint o gyflogaeth ran-amser. |

### 4.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

#### 4.3.1. Tai Fforddiadwy

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, cymeradwyodd y Cabinet gais i ddyrannu cyllideb, gan ragweld derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, i fwrw ymlaen â chais cynllunio amlinellol ar gyfer safle Tŷ Mawr sy'n eiddo i'r Cyngor yn Hen Golwyn. Bydd hyn yn galluogi datblygu Prosiect Tai Fforddiadwy ar y safle.

Yn gynharach ym mis Hydref, cytunodd y Cabinet hefyd i gael gwared ar hen safle Ysgol Nant y Coed i'w ddefnyddio ar gyfer 100% o dai fforddiadwy.

#### 4.3.2. Tai a Digartrefedd

Rhoddodd y Gwasanaeth Tai ddiweddariad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Chwefror ar gynnydd a gweithgaredd yn ymwneud â llety fforddiadwy a phriodol. Crynhodd yr adroddiad gynnydd ar draws y meysydd allweddol o ran cyflawni:

- **Cyflenwad Tai Fforddiadwy** – Gyda bron i 2000 o ymgeiswyr ar y gofrestr tai, rydym yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddefnyddio grantiau cyfalaf i ddatblygu cynlluniau. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

- **Cymorth Tai** – Bydd Cynllun Comisiynu newydd yn edrych ar leihau nifer y contractau a symud buddsoddiad i ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol a thai.

- **Atal Digartrefedd** – Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi aros yn gyson gyda chyfartaledd o 398 o geisiadau y chwarter yn ystod 2023 i 2024. Llwyddwyd i atal digartrefedd mewn 82.9% o achosion.

- **Llety Dros Dro** – Mae lleihau dibyniaeth ar wely a brecwast yn flaenoriaeth wrth i ni anelu at gynyddu nifer ac ansawdd ein portffolio llety dros dro a brydlesir. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg am Gynllun Prydlesu Conwy yn ceisio diddordeb gan bobl sy'n berchen ar eiddo. Bydd hyn yn darparu llety hunangynhwysol mwy addas a chost-effeithiol.

- **Y Sector Preifat** – Mae'r galw am grantiau cyfleusterau i'r anabl (DFGs) wedi aros yn weddol gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2023 i 2024, cwblhawyd 127 o DFGs gyda chanlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys cynnydd mewn annibyniaeth mewn bywyd bob dydd, atal codymau, a galluogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

### 4.3.3. Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor

Ym mis Hydref, cyflwynwyd cynigion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet ar gyfer gosod premiymau Treth y Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Cyflwynodd yr adroddiad yr opsiynau sydd ar gael a'u heffeithiau posibl, yn enwedig ar y cyflenwad tai lleol ac angen lleol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adborth o ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd yn ystod yr haf. Yn ddiweddarach, cymeradwywyd gan y Cyngor y byddai ffioedd o fis Ebrill 2025 ymlaen o:

- 150% ar gyfer ail gartrefi.
- 200% ar gyfer cartrefi gwag hirdymor a fu’n wag ers 5 mlynedd neu lai.
- 300% ar gyfer cartrefi gwag hirdymor sydd wedi bod yn wag am 5 mlynedd.

Cytunwyd ar lefel ddangosol o 200% ar gyfer y ddau gategori o 1 Ebrill 2026, gyda phremiwm uwch o 300% ar gyfer eiddo gwag hirdymor sydd wedi bod yn wag am 4 blynedd neu fwy (yn amodol ar adolygiad yn ystod 2025 i 2026). Cytunwyd hefyd i barhau i beidio â rhoi disgownt mewn perthynas ag ail gartrefi a chartrefi gwyliau ac eiddo gwag hirdymor a heb ddodrefn.

### 4.3.4. Newid yn y Boblogaeth: Effaith ar Dai, Iechyd a Gofal Sylfaenol

Ym mis Hydref, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad yn gwerthuso darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) yn erbyn newid yn y boblogaeth. Gohiriwyd yr adroddiad ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a Lle ym mis Gorffennaf gan aros am ymateb boddhaol gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r pryderon a godwyd a mesurau lliniaru i fynd i'r afael â goblygiadau polisïau'r CDLlN ar ddarpariaeth defnydd tir gwasanaethau iechyd yn y sir. Dros gyfnod y CDLlN, disgwylir i'r boblogaeth dyfu 4950 o breswylwyr. Y prif bwysau poblogaeth i’r Bwrdd Iechyd yw twf cyffredinol, pwysau presennol ar y gwasanaethau iechyd, strwythur poblogaeth sy’n heneiddio a nifer y preswylwyr sy’n byw â chyflyrau hirdymor. Rhoddwyd sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd y byddai mesurau lliniaru'n cael eu gweithredu ar gyfer effaith poblogaeth gynyddol o ddatblygiadau tai.

# Nod 5. Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo’n ddiogel.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 5

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant
Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 5.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Ar ddiwedd 2024 i 2025 rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer presenoldeb mewn canolfannau hamdden, gan gyflawni 1,171,982, i fyny o 1,066,016 y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr aelodaethau Ffit wedi cynyddu o 7708 i 8229. Mae buddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden a rhaglennu gwell wedi cynyddu gwerthiant aelodaeth, gwersi nofio a phresenoldeb cyffredinol mewn pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Mae darpariaeth gymunedol gynyddol a diogelwch traeth a môr arobryn i blant hefyd wedi bod yn uchafbwyntiau o fewn datblygu hamdden.

Rydym yn aros am ddiweddariadau i'r Dangosyddion Lles Cenedlaethol ar gyfer Cymru ar gyfer mesur pobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol. Yn 2022, roedd 10% o bobl yng Nghonwy yn byw mewn amddifadedd materol, ac roedd 7.5% o blant yng Nghonwy yn byw mewn aelwydydd di-waith. Ar gyfer y ddau fesur rydym yn 2il orau yng Nghymru.

Rydym yn datblygu dangosydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gefnogi'r nod hwn. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar arolwg ymgysylltu blynyddol â budd-ddeiliaid.

Yn 2024 i 2025, arhosodd cyfanswm y nifer o asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda 170 allan o 188 o asesiadau wedi'u cwblhau. Yn 2023 i 2024, cwblhawyd 170 allan o 186 o asesiadau. Roedd canran y plant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant, a'r rhai a oedd yn derbyn gofal a welwyd o fewn yr amserlenni statudol, yn 92% ym mis Medi.

Gostyngodd canran y staff newydd a gwblhaodd ein hyfforddiant diogelu gorfodol ar ddiwedd 2024 i 2025 i 51%, i lawr o 70% yn y cyfnod blaenorol. Mae hyn yn cynrychioli 348 o staff allan o 683. Rydym yn gwneud ymholiadau pellach i ddeall y gostyngiad yn y ffigwr hwn, ond mae rhai problemau gyda'r mesur. Gwyddom fod anghysondebau yn y data o ganlyniad i staff achlysurol sydd wedi ymuno â ni'n ddiweddar, ond hefyd o fewn

staff addysg ac ysgol sydd â chyfle cyfyngedig i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol, a gwblheir yn aml yn ystod diwrnodau hyfforddi athrawon.  Gallwn gynnig sicrwydd bod staff ysgolion yn ymgymryd â nifer o fodiwlau diogelu yn rheolaidd, ond bod angen cofnodi'r cwblhau â llaw (sydd y tu allan i'n cofnodi awtomataidd canolog).  Felly, er bod y cyfraddau hyfforddi yn isel, nid ydym yn credu bod hyn yn adlewyrchu'n gywir yr hyfforddiant sy'n cael ei wneud gan staff ysgolion ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi trafod y materion hyn ac mae ein negeseuon i staff yn glir bod angen blaenoriaethu'r hyfforddiant.

Byddwn yn datblygu ein mesur o asesiadau anghenion Gofalwyr yn dilyn cyflwyno cyfrifiad newydd o fis Ebrill 2025.

Roedd canran y cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni yn 88% (70 allan o 80 o gynadleddau) i lawr o 98% ar ddiwedd 2023 i 2024.  Gall y rhesymau dros beidio â chynnal cynadleddau o fewn yr amserlen statudol fod y tu hwnt i'n rheolaeth ac mae pob achos wedi'i adolygu'n unigol i ddeall y rhesymau dros unrhyw oedi.

O ran cynlluniau gofal a chymorth i oedolion, mae angen adolygu cyfartaledd o 280 bob mis.  Yn ystod 2024 i 2025, adolygwyd 35% yn ystod y flwyddyn, i lawr o 37% yn 2023 i 2024.  Bu cynnydd yn nifer yr oedolion sydd ar agor i'r gwasanaeth a chynlluniau i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn. Er bod gennym broblemau sylweddol o ran capasiti o ran amser gwaith cymdeithasol dynodedig i gynnal adolygiadau, mae hyn wedi'i gydnabod fel ffocws allweddol ar gyfer 2025 i 2026.

Roedd canran yr ymholiadau cam-drin oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith yn 98% ar ddiwedd 2024 i 2025, i fyny o 96% y flwyddyn flaenorol. O blith 1145 o ymholiadau, cwblhawyd 1127 o fewn 7 diwrnod.

Cynyddodd canran yr ymweliadau â phlant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol o 92% i 97% yn ystod 2024 i 2025. Cynyddodd canran yr ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a gwblhawyd o fewn y terfynau amser hefyd o 92% i 94% ar gyfer 2024 i 2025. Bu cynnydd yn nifer yr ymweliadau sydd eu hangen, fodd bynnag, mae mwy wedi'u cwblhau o fewn y terfynau amser statudol nag yn y flwyddyn flaenorol.  Rydym yn aros am ddata meincnodi, ond ar gyfer 2023 i 2024, mae ein perfformiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73.4%.

### 5.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus y mynychiadau mewn Canolfannau Hamdden – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 1,066,016; Trothwy Goddefiant: 1,046,016** | 525,589<br>Oren<br>Amherthnasol | 1,066,016<br>Gwyrdd<br>Gwell | 523,259<br>Oren<br>Gwaeth | 1,171,982<br>Gwyrdd<br>Gwell |

### 5.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer y bobl gydag Aelodaeth Ffit Conwy - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 8,500; Trothwy Goddefiant: 7,640** | 7708<br>Gwyrdd<br>Gwell | 8229<br>Oren<br>Gwell |
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol (pob oedran) – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Dangosydd Llais Budd-ddeiliaid – yn cael ei ddatblygu | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 5.1.3. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cronnus nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld – **Cyfrif yn Unig** | 53 | 170 | 86 | 170 |
| Canran staff newydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 56.07%<br>Coch<br>Amherthnasol | 58.76%<br>Coch<br>Gwell | 70.50%<br>Coch<br>Gwell | 51%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Asesiadau Anghenion Gofalwyr – yn cael eu datblygu | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 5.1.4. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 98.0%<br>Coch<br>Amherthnasol | 87.5%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 36.6%<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | 34.5%<br>Amherthnasol<br>Gwaeth |
| Canran yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad o gam-drin honedig ar gyfer oedolion – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: 76%** | 96.3%<br>Coch<br>Gwaeth | 98.4%<br>Oren<br>Gwell |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran yr ymweliadau â phlant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 92.2%<br>Coch<br>Gwell | 97.4%<br>Coch<br>Gwell |
| Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 92.3%<br>Coch<br>Amherthnasol | 93.5%<br>Coch<br>Gwell |

## 5.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae deuddeg gweithgaredd gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae pob un ar y trywydd iawn.

### 5.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Moderneiddio Rhaglen Gofal Cymdeithasol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae nifer o brosiectau ar y gweill ar hyn o bryd ac yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys prosiect Datblygu Gwasanaethau Plant; Prosiect Diogelu Plant yn Effeithiol; Ailfodelu o fewn Gwasanaeth Pobl Hŷn; adolygiad Byw â Chymorth yn y Gwasanaethau Anabledd; datblygiadau Planhigfa, Caffi a Siop Bryn Euryn. |
| Cysylltu Gofal | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynodd CLILC achos busnes ym mis Hydref ar ran yr holl awdurdodau lleol, yn gofyn am gyllid ar gyfer y Rhaglen Cysylltu Gofal. Cadarnhawyd cymeradwyaeth ar gyfer 2024 i 2025 i gefnogi gweithredu'r system ac ymrwymiadau cost refeniw parhaus, sy'n gysylltiedig â thrwyddedau meddalwedd a chefnogaeth i'r prosiect. Ar hyn o bryd rydym yn aros am fanylion dyfarniadau cyllid unigol. Yn dilyn llofnodi'r contract rydym bellach yn ymgysylltu'n llawn â'r cyflenwr a phartneriaid rhanbarthol i weithredu'r system newydd ar gyfer Rheoli Achosion; Asesiad Ariannol a Chodi Tâl; a thaliadau penodol i ofal cymdeithasol, h.y. Gofalwyr Maeth, Gofal Dydd, Gofal Cartref. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Dull Ysgol Gyfan ar gyfer â Lles Meddyliol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae iechyd a lles emosiynol yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i Gonwy. Rydym yn cydweithio'n weithredol ag asiantaethau partner amrywiol i ddarparu ystod gynhwysfawr a phwrpasol o wasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig cymorth uniongyrchol ar gyfer iechyd meddwl a lles, ond hefyd mynd i'r afael ag agweddau eraill ar iechyd a lles i sicrhau dull cyfannol o ymdrin â lles myfyrwyr. |
| Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gofal Cymdeithasol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn parhau i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth a'r gofynion adrodd cysylltiedig. Rydym yn defnyddio grant Llywodraeth Cymru i gefnogi capasiti i sicrhau ein bod yn gallu bodloni gofynion y fframwaith adrodd.<br><br>Wrth gynhyrchu data, rydym yn gallu meincnodi ein hunain yn erbyn cyfartaledd Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill Cymru. Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau ac i lywio gwella gwasanaethau. Rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn cofnodi ac yn adrodd yn unol â'r fframwaith, ac i nodi meysydd sydd angen eu gwella, e.e. ein Hasesiadau Beth Sy'n Bwysig. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Newid y ffordd rydym yn comisiynu gofal cartref yng ngwasanaethau pobl hŷn | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r prosiect hwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn comisiynu a darparu gofal cartref. Gan symud ymlaen o 'Amser a Thasgau', i weithio gydag ymagwedd 'Canolbwyntio ar Ganlyniadau Lles a Phobl'. Mae'r gwaith o gyflwyno'r model newydd trwy ein 5 Tîm Adnoddau Cymunedol wedi'i gwblhau. Ar hyn o bryd mae'r timau'n blaenoriaethu trosglwyddo'r rhai sy'n derbyn pecyn gofal i'r cynlluniau gofal a'r bandiau cyflog newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y cam olaf (cyflwyno taliadau wedi'u cynllunio a biliau blynyddol) yn edrych ar ddichonoldeb, achos busnes a phriodoldeb ariannol cyflwyno newidiadau i'r model talu, a allai sicrhau effeithlonrwydd. Mae gan dros 900 o ddefnyddwyr gwasanaeth gynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Mae ein hymrwymiad i brynu oriau bloc ymlaen llaw wedi helpu i gynyddu sefydlogrwydd yn y farchnad gofal cartref a chefnogi darparwyr gyda recriwtio a chadw staff.<br><br>Drwy nodi meysydd dewisol y mae darparwyr yn ymrwymo iddynt, rydym wedi cynyddu effeithlonrwydd y broses froceriaeth ac wedi galluogi dull gweithio mwy integredig rhwng Timau Adnoddau Cymunedol a darparwyr. Mae gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod dod o hyd i becynnau gofal bellach yn llawer haws. Maent yn gallu cyflymu rhyddhau unigolion o ysbytai yn llawer cyflymach.<br><br>Rydym hefyd wedi creu cyfleoedd ar gyfer opsiynau gofal mwy arloesol trwy gynyddu'r defnydd o ficro-asiantaethau a Thaliadau Uniongyrchol, a ddefnyddir fel dewis arall yn lle derbyniadau i gartrefi gofal. |
| Strategaeth Trechu Tlodi | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gennym Grŵp Llywio Trechu Tlodi gydag arweinwyr o bob maes gwasanaeth Awdurdod Lleol. Rydym wedi datblygu dogfen ddrafft yn manylu ar ein bwriadau a'n blaenoriaethau yn seiliedig ar egwyddorion Marmot. Rydym hefyd wedi cynnal gweithdy i roi mwy o fanylion am y rhain ac i edrych ar yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud a ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion yn y dyfodol. Rydym nawr yn mynd â'r gwaith hwn i gyfarfod Fforwm Rheolwyr ehangach i gasglu syniadau ar gyfer yr hyn y gallem a'r hyn y dylem fod yn ei wneud i fynd i'r afael â bylchau a meysydd lle mae angen i ni ganolbwyntio yn y dyfodol, a hefyd i sicrhau bod perchnogaeth gyffredin o'n gwaith Trechu Tlodi ar draws yr holl wasanaethau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Unigolyn Cyfrifol y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae hyn yn cyflwyno model newid sefydliadol newydd i gyflawni ein dyletswyddau "Unigolyn Cyfrifol" RISCA ar gyfer darpariaeth gwasanaeth mewnol presennol a newydd o ofal cartref a lleoliadau preswyl ar draws Gofal Cymdeithasol. Penodiad yr Unigolyn Cyfrifol penodedig oedd carreg filltir gyntaf y prosiect hwn. Mae'r cam presennol yn cynnwys trosglwyddo swyddogaethau'r Unigolyn Cyfrifol o'r rheolwyr presennol sy'n ymgymryd â dyletswyddau Unigolyn Cyfrifol i'r Unigolyn Cyfrifol penodedig newydd.<br>Mae'r cylch RISCA newydd a gyflwynwyd yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar weithrediadau ein gwasanaeth. Manteision y newid gwasanaeth hwn yw darparu model hirdymor i'r gwasanaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth Unigolyn Cyfrifol. Cynyddu capasiti a chysondeb wrth gyflawni dyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol ar draws y gwasanaeth i gefnogi gwelliant parhaus yn y gwasanaeth, gan leihau'r pwysau amser ar reolwyr o fewn y gwasanaeth. |
| Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar Ddiogelu | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae diogelu yn parhau i fod yn uchel ar agenda'r cyngor. Mae cynllun gweithredu Diogelu Corfforaethol ar gyfer 2024 i 2025 yn cydnabod blaenoriaethau diogelu. Roedd wythnos diogelu ym mis Tachwedd yn gyfle i staff gymryd rhan mewn digwyddiadau, megis briffiau 7 munud, a digwyddiadau hyfforddi rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar themâu diogelu penodol. Mae diogelu yn fusnes i bawb ac fe'u hatgoffir o'u 'dyletswydd i adrodd' am bryder diogelu. |
| Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol Cymru | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae monitro ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid yn parhau'n fisol. Cymeradwywyd Adroddiad Ansawdd Aer Cydweithredol Blynyddol Gogledd Cymru 2024 gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr.<br>Fe wnaethon ni barhau i ddefnyddio Rhagfynegi a Disgowntio mewn safleoedd Dŵr Ymdrochi yng Nghonwy lle'r oedd categorïau mewn perygl o bosibl.<br>Mae profion nwy tirlenwi yn parhau bob dau fis mewn cyfleuster cyngor sydd wedi'i leoli ar hen safle tirlenwi.<br>Cwblhawyd 25 o gymwysterau Iechyd a Diogelwch LEA1 yn ystod 2024.<br>Cwblhawyd Cynllun Gwasanaeth a Safonau Bwyd Conwy ac adroddiad perfformiad ar gyfer 2024 i 2025.<br>Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ychwanegol wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer 2025 i 2026. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Maethu Cymru Conwy | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae Conwy bellach yn gyflogwr swyddogol sy'n ystyrlon o faethwyr, sy'n golygu y bydd gan unrhyw deulu gofal maeth a gyflogir gennym mewn swyddogaeth arall 5 diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol o'u swydd barhaol i ganiatáu iddynt fynychu'r cyfarfodydd a'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl Maethu. Rydym hefyd wedi cyflwyno gostyngiadau Treth y Cyngor a thrwydded parcio i unrhyw ofalwr maeth sy'n darparu cefnogaeth trwy Ofal Maeth Cymru yng Nghonwy. Mae cyflwyno'r uchod wedi rhoi Maethu Cymru Conwy mewn sefyllfa llawer cryfach i gynnal ein gweithlu presennol, a bydd yn cefnogi ein hymgyrch recriwtio. Ni all gofalwyr maeth sy'n gweithio yn y sector preifat dderbyn y manteision hyn.<br><br>Mae swyddogion Recriwtio a Marchnata bellach yn eu swyddi i gyflawni ein cynllun gweithredu marchnata cynhwysfawr. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd marchnata digidol, brandio a rhwydweithio digidol. Bydd gweithgareddau recriwtio yn canolbwyntio ar sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb lleol, sesiynau galw heibio ar y we, datblygu Llyfrynnau Croeso, a diweddaru canllawiau plant.<br><br>Mae'r gwasanaeth hefyd yn anelu at ddarparu'r gefnogaeth therapiwtig o'r ansawdd uchaf i ofalwyr Gofal Maeth Cymru a'r plant yn eu gofal, gan ddarparu ymyriadau wedi'u targedu, a hefyd darparu hyfforddiant helaeth i ofalwyr maeth.<br><br>Mae Maethu Cymru Conwy wedi cael ei archwilio eleni ac wedi cael ei ganmol am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ranbarthol – darpariaeth leol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd ar draws pob asiantaeth i atal a rhwystro trais difrifol. Gwnaed hyn trwy gael mynediad at gyllid grant gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyflawni prosiectau atal trais ymysg ieuenctid.<br>Mae troseddau treisgar wedi gweld gostyngiadau dros y 12 mis diwethaf ac mae gwerthusiad annibynnol wedi nodi bod ein strategaeth ranbarthol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir. Rydym hefyd wedi ymgymryd â phrosiectau sydd â'r nod o atal lladrata a thrin nwyddau wedi'u dwyn, atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio ar y cyd ar atebion lle mae digwyddiadau ailadroddus o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned wedi digwydd.<br>Mae'r holl waith uchod wedi'i wneud mewn partneriaeth ac rydym wedi cryfhau cysylltiadau â byrddau partneriaeth eraill i sicrhau bod y ddyletswydd trais difrifol a diogelu wedi'u hymgorffori ym mhopeth a wnawn, gan ei fod yn sail i'r rhan fwyaf o'r categorïau troseddau a'r nodau atal yr ydym yn eu monitro fel partneriaeth. Mae'r holl waith lleol yn bwydo i'r strategaeth ranbarthol a darperir diweddariadau bob chwarter. |
| Sylva Gardens | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cwblhawyd eiddo sy'n cynnwys 3 fflat 2 ystafell wely ar gyfer 3 o blant sy'n derbyn gofal ag anableddau dysgu ddiwedd mis Chwefror. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai First Choice, perchennog yr eiddo a'r landlord i ddatblygu'r fflatiau pwrpasol.<br>Ym mis Mawrth, llofnodwyd y brydles a dodrefnwyd y fflatiau. Archwiliodd Arolygiaeth Gofal Cymru yr eiddo ac mae cofrestru bellach yn yr arfaeth. Mae'r preswylydd cyntaf i fod i symud i mewn tua mis Mai.<br>Bydd agor y fflatiau yn arwain at 2 o blant yn trosglwyddo o leoliadau annibynnol costus ac un arall o leoliad y tu allan i'r sir. Byddant yn agosach at adref, teulu ac ysgol, a byddant yn gallu aros yn eu fflatiau nes byddant yn oedolion. Bydd yr holl bobl ifanc wedi trosglwyddo erbyn diwedd mis Medi 2025. |

## 5.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 5.3.1. Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus

Mae sefydliadau cyhoeddus yn y DU wedi cael eu hannog i lofnodi Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus. Mae'n seiliedig ar 6 datganiad sy'n cefnogi tryloywder a gweithredu er budd gorau'r cyhoedd, ac i osgoi poen a dioddefaint hirfaith i deuluoedd mewn unrhyw drasiedi gyhoeddus yn y dyfodol. Mabwysiadwyd y Siarter gan y Cabinet, ar ran y Cyngor ym mis Mawrth 2025, a chyhoeddom ddatganiad i'r wasg gyda gwybodaeth am y Siarter a'n hymrwymiad iddi fel sefydliad.

### 5.3.2. Achrediad Rhuban Gwyn

Ym mis Rhagfyr, ystyriodd y Cabinet adroddiad ar yr hyn fyddai ei angen i gyflawni Achrediad Rhuban Gwyn, yn dilyn Hysbysiad o Gynnig a wnaed yn y Cyngor ym mis Mai. Er bod yr Hysbysiad o Gynnig wedi'i gefnogi mewn egwyddor, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y goblygiadau o ran adnoddau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er ein bod yn cefnogi'r fenter, nad oes gennym yr adnoddau ar hyn o bryd i gael ein hachredu. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn yn flynyddol (fel yr oeddem wedi'i wneud gyda stondin yng Nghoed Pella ym mis Tachwedd). Nodwyd bod cyfle ar gael i unigolion wneud addewid i gefnogi'r fenter. Fel cyngor rydym yn cyfrannu llawer iawn o waith yn rhanbarthol i atal ac addysgu pobl am Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), gan gefnogi Strategaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Bregusrwydd a Chamfanteisio. Mae cefnogaeth hefyd ar gael i staff sydd wedi profi cam-drin domestig.

### 5.3.3. Strategaeth Toiledau Lleol

Ym mis Hydref, roeddem yn gallu cyhoeddi, yn dilyn cynigion nawdd gan Gynghorau Tref a Chymuned, y byddai toiledau ychwanegol yn aros ar agor dros y gaeaf. Ers mis Gorffennaf 2024, mae'r cyhoedd hefyd wedi gallu defnyddio cyfleusterau toiled mewn adeiladau cyngor fel swyddfeydd, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd, hyd yn oed os nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau eraill yn yr adeilad. Mae toiledau pellach ar gael trwy ein cynllun toiledau cymunedol. Mae cau toiledau yn benderfyniad anodd, ond o ystyried y pwysau cyllidebol sylweddol yr ydym yn eu hwynebu, mae angen cyfleusterau y telir amdanynt a nawdd i gadw cyfleusterau ar agor. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan.

### 5.3.4. Diogelwch Cymunedol

Ym mis Rhagfyr, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ddiweddariad blynyddol gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd gan y bartneriaeth wrth fynd i'r afael â'i thair blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2020 i 2024. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â phlant yn masnachu a defnyddio cetamin yn y sir, gan gynnwys tueddiadau dros amser. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Barnardo's, Gwasanaethau Ieuenctid ac Addysg Conwy, Heddlu Gogledd Cymru, a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i fynd i'r afael â phroblem defnyddio cetamin.

Hefyd yn bresennol yn y Pwyllgor ym mis Rhagfyr roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyflwyno trosolwg o Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2025 i 2028, gan gynnwys ei flaenoriaethau a'i amcanion. Cadarnhawyd y Cynllun ym mis Ionawr 2025 ac mae ar gael i'w weld ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

### 5.3.5. Adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Economi a Lle adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymdrin â'n prosesau a'n trefniadau cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau bwyd. Amlygodd yr adroddiad nad oes gennym ddigon o adnoddau i gyflawni rhaglenni arolygu presennol ac i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau. Felly, rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig. Sicrhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio'r aelodau fod gwaith ar y gweill i feithrin capasiti. Nododd yr adroddiad hefyd fod 10 allan o 15 o argymhellion a wnaed yn dilyn yr archwiliad blaenorol wedi'u cydymffurfio, a nododd fod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r 5 sy'n weddill.

### 5.3.6. Adnewyddu Canolfan Deuluoedd Llanrwst

Ym mis Tachwedd, dechreuom weithio ar ein canolfan deuluoedd yn Llanrwst gan ddefnyddio cyllid o Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) Llywodraeth Cymru. Canmolodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol y cyfleuster a'r gwahaniaeth yr oedd yn ei wneud ym mywydau cannoedd o deuluoedd. Bydd yr adnewyddu'n cynnwys ail-lunio'r cynllun i wneud gwell defnydd o'r gofod, gwella hygyrchedd ac ailosod ffenestri i wneud yr adeilad yn fwy effeithlon o ran ynni.

### 5.3.7. Cefnogi Ffyrdd o Fyw Egnïol

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom annog pobl i gymryd rhan mewn diwrnod o rasys llwybrau coedwig yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored Nant Bwlch yr Haearn, gan gynnwys ras i blant 10 i 14 oed. Wedi'i leoli yng Nghoedwig Gwydir, mae Nant BH wedi bod yn darparu cyrsiau awyr agored ers bron i 60 mlynedd. Mae'r tîm yn gobeithio sefydlu cyfres flynyddol o rasys a fydd yn helpu'r ganolfan i barhau i ddarparu cyrsiau addysg o ansawdd uchel i grwpiau o ysgolion Gogledd Cymru.

Ym mis Ionawr fe wnaethom hyrwyddo cyfle Ymarfer Bocsio i bobl ifanc. Gan weithio gydag MBox, roedd Tîm Ieuenctid, Ymgysylltu a Pherthyn Conwy wrth eu bodd yn cyflwyno sesiynau ymarfer bocsio i rai 11 i 17 oed yng Nghanolfan Tŷ Hapus yn Llandudno. Cymerodd 24 o bobl ifanc ran yn y sesiwn gyntaf ac roeddent hefyd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau clwb ieuenctid eraill yn y ganolfan.

### 5.3.8. Chwarae

Diolch i gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, mae pedwar deg tri o ardaloedd chwarae yn y sir – bron i draean – wedi cael eu hailwampio gydag arwynebau ac offer chwarae newydd. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â Chynghorau Tref a grwpiau gwirfoddol i ddarparu amrywiaeth o gyfleusterau mewn gwahanol leoliadau i wneud y mwyaf o'r manteision i breswylwyr.

### 5.3.9. Cefnogaeth Dementia

Amcangyfrifir bod 11,900 o bobl yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, ac mae tua 67,000 o ofalwyr di-dâl yn cefnogi pobl â dementia. Mae cymorth ar gael mewn nifer o ffyrdd ac ym mis Ionawr, fel rhan o Bartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, amlygom y Gwasanaeth Cefnogi'r Cof Gogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan ddementia ac yn 2023 i 2024 cefnogodd 47,000 o bobl. Gellir cael cefnogaeth yn uniongyrchol trwy ein Canolfan Dementia ym Mae Colwyn a thrwy ffonio 01492 542212.

Cyhoeddodd y Bartneriaeth hefyd ddatganiad i'r wasg ym mis Mawrth am y Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia. Ar hyn o bryd mae 12 cymuned yng Ngogledd Cymru, a rhagwelir y bydd 12 cymuned arall yn edrych i wneud cais am achrediad statws deall dementia yn ystod 2025. Dros flwyddyn gyntaf y cynllun, nododd dros 1,400 o bobl well

gwybodaeth am wasanaethau dementia yn eu cymuned.  Am ragor o wybodaeth a sut i wneud cais, ewch i  https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/dementia/.

### 5.3.10. Bron y Nant yn Agor ei Drysau!

Roeddem yn falch o gyhoeddi ym mis Mawrth fod Canolfan Seibiant Anabledd Bron y Nant wedi'i hagor yn swyddogol gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.  Wedi'i ariannu'n rhannol drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, mae'r datblygiad yn Llandrillo-yn-Rhos yn darparu gofal a chymorth i bobl yng Nghonwy sydd ag anableddau, ac mae'n cynnwys gwasanaethau seibiant a chanolfan ddydd gynhwysol. Mae'r ganolfan yn galluogi mwy o seibiant preswyl i bobl ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd ac yn ein helpu i gefnogi ein nifer o ofalwyr anffurfiol yn well.

### 5.3.11. Prosiect Ailfodelu Glan yr Afon

Ym mis Hydref, darparwyd diweddariad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar gynnydd prosiect Glan yr Afon i adeiladu cartref preswyl  4 ystafell wely i blant a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.  Hysbyswyd yr aelodau fod strwythur a llywodraethu'r prosiect yn gweithio'n dda a bod y prosiect ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion o fewn yr amserlenni a gynlluniwyd ac o fewn y gyllideb.  Disgwylir i'r deiliaid cyntaf drosglwyddo i'r adeilad ym mis Mai 2025.

### 5.3.12. Cadw Pobl yn Ddiogel – Bridio Cŵn Heb Drwydded

Mae swyddogion trwyddedu Conwy yn parhau i gadw pobl yn ddiogel ac amddiffyn lles anifeiliaid, gan gynnwys mynd i'r afael â bridwyr cŵn heb drwydded.  Ym mis Ionawr, fe wnaethon ni erlyn bridiwr cŵn yn Llys Ynadon Llandudno.  Gorchmynnwyd i'r bridiwr cŵn dalu £1,066 ar ôl cael ei gael yn euog o fridio cŵn a'u hysbysebu i'w gwerthu trwy wefan Pets4Homes.  Mae canllawiau ar ddod ag anifail anwes newydd i'ch teulu ar gael yn. Trwyddedu Anifeiliaid Cymru.

### 5.3.13. Mabwysiadu

Ym mis Hydref, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ddiweddariad cynhwysfawr ar weithgaredd Panel Mabwysiadu ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, ynghyd â diweddariad ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS) a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS). Cynhaliwyd naw cyfarfod Panel yn 2023 i 2024. Mae argaeledd mabwysiadwyr yn parhau i fod yn broblem sylweddol ac mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu yn parhau i hyrwyddo

marchnata a recriwtio ar gyfer mabwysiadwyr newydd i leihau amseroedd aros ac osgoi costau lleoli plant y tu allan i Ogledd Cymru.  Canmolodd yr aelodau gadernid y broses fabwysiadu sydd, er ei bod yn ymddangos yn hir, yn angenrheidiol ac yn helpu i nodi sgiliau a chryfderau darpar fabwysiadwyr yn iawn a thrwy hynny sicrhau lleoliad am oes.

### 5.3.14. Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant - Arolygiaeth Gofal Cymru

Mewn ymateb i nifer o farwolaethau trasig plant ar draws Cymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Arolygiaeth Gofal Cymru arwain ar adolygiad cyflym aml-asiantaeth o benderfyniadau mewn perthynas ag amddiffyn plant ledled Cymru. Rhannwyd crynodeb o argymhellion yr adolygiad, ynghyd â'n cynllun gweithredu mewn ymateb, gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Tachwedd.  O'r 30 o gamau gweithredu a gynhwysir yn y Cynllun gweithredu, mae 18 wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn y terfynau amser, mae 11 ar y gweill ac yn cael eu monitro, ac mae angen gwaith pellach ar un cam gweithredu. Nodwyd ein bod fel cyngor yn arwain ar hyfforddiant diogelu cenedlaethol, gyda gwasanaethau wedi'u grwpio i gategorïau i bennu lefel yr hyfforddiant diogelu sydd ei angen.

### 5.3.15. Archwilio Cymru - Gofal Brys ac Argyfwng

Mae cefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty yn ddiogel ac yn amserol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni fel cyngor.  Mae'r graddau'r oedi o ran rhyddhau yng Ngogledd Cymru wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar a rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, bob mis ar gyfartaledd roedd oedi wrth ryddhau 334 o gleifion a oedd yn feddygol iach. Adolygodd Archwilio Cymru'r Llif Allan o Ysbytai a chyhoeddi eu hadroddiad ym mis Chwefror 2024, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r chwe awdurdod lleol yn llunio ymateb ar y cyd.  Canfu'r adroddiad, er bod partneriaid yn deall ac yn dangos ymrwymiad i wella llif cleifion o'r ysbyty roedd perfformiad yn parhau yn hynod o heriol gydag effeithiau andwyol ar brofiad a gofal cleifion.

Rhannwyd yr adroddiad a'r cynllun gweithredu gyda'r Pwyllgor Trosolwg Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Tachwedd.  Mae'n egluro ein bod wedi mabwysiadu model asesydd dibynadwy, gan arbed amser staff a chynnwys y Therapydd Galwedigaethol i asesu ac atgyfeirio'n uniongyrchol at ein tîm ail-alluogi.  Mae gennym hefyd bum fflat Tai Gofal Ychwanegol, a ariennir ar y cyd gennym ni a'r Bwrdd Iechyd

Lleol, sydd wedi'u cadw ar gyfer cefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty neu atal derbyniadau i'r ysbyty.

### 5.3.16. Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru

Ym mis Tachwedd, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd adroddiadau arolygu rheoleiddiol gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar leoliadau cofrestredig a weithredir gennym ni fel cyngor a'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Cymeradwyodd yr aelodau eu hatgyfeiriad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael sicrwydd ac ychwanegwyd fod swyddogion yn cyflwyno sylwadau i Arolygiaeth Gofal Cymru, o hyn ymlaen, bod gan bob preswylydd mewn lleoliadau cofrestredig fynediad at adroddiadau arolygu llawn, yn ogystal â fersiwn hawdd ei darllen.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru archwiliad o Fwthyn y Ddôl ym mis Ionawr 2024. Nodwyd tri maes ar gyfer gwella, ac aethpwyd i’r afael â dau o’r rhai ar unwaith a bydd y trydydd yn cael ei ddatrys wrth symud y gwasanaeth i’r safle newydd. Nid oedd unrhyw un o’r meysydd ar gyfer gwella yn peri risg sylweddol nac uniongyrchol i’r rhai a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth. Nid yw'r adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi gan Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn amddiffyn y plant.

### 5.3.17. Prif Bibell Ddŵr wedi Byrstio

Ym mis Ionawr, profwyd ein gweithdrefnau cynllunio rhag argyfwng sifil posibl wrth i ni gefnogi cymunedau gydag effeithiau'r brif bibell ddŵr wedi byrstio yng Ngwaith Trin Dŵr Bryn Cowlyd yn Nolgarrog. Roedd y digwyddiad yn un o'r rhai mwyaf o'i fath yn y DU, gan effeithio'n eang ar gyflenwadau dŵr ar draws Dyffryn Conwy. Fe wnaethom gefnogi ein partneriaid gyda Grŵp Cydlynu Strategol amlasiantaeth i helpu i gydlynu ymdrechion ymateb, a helpu i ddosbarthu dŵr potel i'n preswylwyr mwyaf diamddiffyn, gan gynnwys darparu gorsafoedd dŵr yn ein Swyddfeydd ym Modlondeb, Parc Eirias, a Maes Parcio Pen Morfa Llandudno. Yn anffodus, bu'n rhaid i rai o'n cyfleusterau ac ysgolion gau dros dro, a tharfwyd yn sylweddol ar fusnesau hefyd oherwydd y prinder. Cymerodd bum niwrnod i'r cyflenwad gael ei adfer yn llawn, ond cafodd staff y cyngor, gwirfoddolwyr a pheirianwyr a weithiodd yn ddiflino yn ystod yr argyfwng eu canmol am eu hymateb rhagorol i'r digwyddiad. Fel cyngor, fe wnaethom arwain ar y cyfnod adfer a darparu diweddariadau rheolaidd i'r cyhoedd. Byddai'r ymateb i'r argyfwng yn cael ei adolygu ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru.

# 6. Atodol - Swyddogaethau Llywodraethu

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Gyda chefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i fod yn wydn mae'r penodau i ddilyn yn ystyried y camau i wella a'r datblygiadau (yn cynnwys eitemau newyddion a phwyllgorau) sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod 2023 i 2024 er mwyn cefnogi saith maes llywodraethu, yn bennaf Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Rheoli Perfformiad, Rheoli Risg, Cynllunio'r Gweithlu, Rheoli Asedau a Chaffael.

## 6.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Mae'r mesurau a'r gweithgaredd canlynol yn cwmpasu meysydd llywodraethu allweddol, yn atodol i'r mesurau a'r gweithgaredd hynny a nodwyd yn Nod 1 i gefnogi bod yn gyngor gwydn.

Yn ystod 2024 i 2025 cawsom 3 adroddiad sicrwydd isel gan archwilio mewnol. Mae'r rhain wedi'u hadrodd i'n Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae cynlluniau gweithredu mewn grym. Mae XX% o'r camau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau rheoleiddio allanol yn dal i fod heb eu cwblhau. Unwaith eto, mae ein cydymffurfiaeth ag archwiliadau Rheoleiddio Allanol yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae 7 Archwiliad Iechyd prosiect / rhaglen wedi'u cwblhau yn ystod 2024 i 2025.

Rydym yn aros am ddata ar gyfer ein mesurau ynghylch cwynion a gadarnhawyd, gan gynnwys y rhai i'r Ombwdsmon.

Mae presenoldeb aelodau etholedig mewn cyfarfodydd yn parhau i fod yn uchel, sef 85%, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (86%). Rydym yn aros am ddata ar gwblhau hyfforddiant gorfodol gan aelodau.

### 6.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr adroddiadau archwilio mewnol sicrwydd isel – **Wedi'u Meincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 3; Trothwy Goddefiant: 5.** | 1<br>Gwyrdd<br>Gwell | 6<br>Coch<br>Gwaeth | 1<br>Gwyrdd<br>Gwell | 2<br>Gwyrdd<br>Da |

### 6.1.2. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y camau gweithredu sy'n weddill i weithredu arnynt o argymhellion allanol – **Cyfrif yn Unig** | 76%<br>Coch<br>Gwaeth | 32%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 28%<br>Gwyrdd<br>Gwell | Aros am ddata |
| Nifer y Gwiriadau Iechyd rhaglen / prosiect sydd wedi'u cwblhau yn ystod y 6 mis diwethaf – **Wedi'u Meincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 2; Trothwy Goddefiant: 1.** | 1<br>Gwyrdd<br>Amherthnasol | 1<br>Gwyrdd<br>Yr un fath | 3<br>Gwyrdd<br>Gwell | 4<br>Gwyrdd<br>Gwell |

### 6.1.3. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y cwynion a gadarnhawyd gan yr Ombwdsmon yn erbyn yr awdurdod lleol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 0%; Trothwy Goddefiant: 5%** | 0%<br>Gwyrdd<br>Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y cwynion a gadarnhawyd – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 30%; Trothwy Goddefiant: 40%** | 0%<br>Gwyrdd<br>Aros am ddata | Aros am ddata |
| Presenoldeb disgwyliedig aelodau a'r flwyddyn bresennol hyd yma – **Cyfrif yn Unig** | 86% | 85% |
| Canran yr aelodau sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | Aros am ddata | Aros am ddata |

## 6.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae deg gweithgaredd gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae chwech ar y trywydd iawn, mae dau o fewn goddefiant, mae un wedi'i gwblhau, ac nid yw un i fod i ddechrau eto.

### 6.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi gwneud cynnydd da i adolygu nifer o gydrannau allweddol sy'n cefnogi ein Fframwaith Rheoli Perfformiad, sef ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad; y broses Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth; ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig a'n fframwaith ategol (sy'n cynnwys ein gwaith ar feincnodi); a'n proses ymgysylltu â budd-ddeiliaid, a fydd yn cryfhau gwybodaeth safbwynt defnyddwyr yn ein hadroddiadau. Yn dilyn cyhoeddi ein Hunanasesiad sydd ar y gweill, a fydd yn dod â nifer o'r elfennau hyn at ei gilydd, byddwn yn edrych i ddiweddaru ein polisi a'n canllawiau Fframwaith Rheoli Perfformiad drwy'r broses ddemocrataidd yn yr hydref. |
| Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith i adolygu ein dull o ran Rheoli Risgiau Corfforaethol. Yn dilyn mewnbwn gan y ddemocratiaeth ym mis Mehefin / Gorffennaf, byddwn yn edrych i ddiweddaru ein polisi a'n canllawiau Rheoli Risg drwy'r broses ddemocrataidd. Mae'n debyg y bydd hyn yn ystod diwedd yr Haf. |
| Diweddaru Asesiad Llesiant gyda phartneriaid | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae trafodaethau cynnar iawn wedi dechrau gyda phartneriaid ynghylch ein dull o ddiweddaru Asesiad Llesiant y BGC, gyda'r capasiti yn bryder mwyaf dybryd ar hyn o bryd. Rydym yn archwilio nifer o opsiynau i helpu gyda'r gwaith hwn. |
| Datblygu Cynllun Corfforaethol 2027 i 2032 | Heb ei ddechrau | Bydd Swyddogion Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn cyfarfod yn yr Haf i drafod amserlen ar gyfer y Cynllun Corfforaethol nesaf. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Prosiectau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn adolygu ein Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Prosiectau yn flynyddol. Mae'r adolygiad ar gyfer 2025 i 2026 wedi dechrau'n ddiweddar ac mae'n ystyried y gwaith a wnaed yn 2024 i 2025 o ran cyflwyno Gwiriadau Iechyd a Grwpiau Ymarferwyr Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau. Bydd adolygiad eleni yn fwy manwl o ran ystyried nid yn unig gwelliannau i'r Fframwaith ond hefyd adolygu hyfforddiant a Strwythurau Rhaglenni a Phrosiectau. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith yn cael eu rhannu ag Uwch Reolwyr i'w cadarnhau ac yna eu cymeradwyo drwy'r ddemocratiaeth. Ar ôl cytuno, bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu / eu peilota cyn diwedd y flwyddyn. |
| Asesu Perfformiad Panel | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd papur yn amlinellu trefniadau ar gyfer Asesiad Perfformiad y Panel i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael mewnbwn ym mis Tachwedd, ac wedi hynny i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Ionawr i argymell y newidiadau angenrheidiol i'r cyfansoddiad i'r Cyngor, a derbyniwyd y rhain.<br>Yn dilyn trafodaeth gychwynnol gyda'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Ionawr (gyda chefnogaeth CLlLC) i ystyried cylch gwaith Asesiad Perfformiad y Panel, cyfarfu gweithgor o swyddogion allweddol ac aelodau cabinet sydd â chyfrifoldeb am swyddogaethau llywodraethu ym mis Mawrth ac Ebrill i ddrafftio Cwmpas yr asesiad. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael eu mewnbwn ym mis Mai. Cytunir ar gwmpas a phenodiad y panelwyr ym mis Medi, gyda'r asesiad ei hun bellach yn digwydd ym mis Rhagfyr (yn hytrach na mis Medi fel yr adroddwyd yn flaenorol). Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd gyda CLlLC i drafod a rhoi'r amserlen a'r logisteg angenrheidiol ar waith. |
| Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliad | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Tîm Perfformiad a Gwella wedi datblygu opsiynau ar gyfer Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid, a byddant yn fuan yn cyflwyno cynnig i'w ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Cabinet. Bydd ystyriaeth o'r argymhellion a ddaeth o waith diweddar Archwilio Cymru ar ddefnyddio gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y gwaith hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Roedd yn amserol ein bod yn ystyried fformat yr adolygiadau a cheisio tynhau eu ffocws ar faterion a heriau perfformiad, yn enwedig yn yr amgylchedd ariannol presennol. Cafodd y cylch gorchwyl ar gyfer y rhaglen ei adolygu gan yr Uwch Reolwyr a'r Cabinet ym mis Mawrth, gan gyflwyno rhaglen wedi'i strwythuro i'r cyfarfodydd wrth symud ymlaen, a dogfennaeth symlach i gefnogi trafodaethau strategol yn well. Hefyd, gan gydnabod y gwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth, cytunwyd yn awr i symud i raglen dreigl flynyddol, oherwydd teimlir ei bod yn fwy cymesur, yn enwedig yng nghyd-destun mecanweithiau eraill sy'n bodoli i adolygu perfformiad gwasanaeth yn rheolaidd. Bydd camau gwella sy'n deillio o'r Adolygiadau Perfformiad Strategol (SPRs) yn cael eu bwydo i'n hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad chwe misol. |
| Parc Masnach Mochdre | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae'r Bwrdd Prosiect yn parhau i gysylltu â'r Landlord a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol ar y safle. Mae costau'n cael eu monitro'n barhaus ac mae trafodaethau'n parhau gyda'r Landlord ar opsiynau ar gyfer y safle. |
| Meincnodi Cynllun Corfforaethol | Wedi'i Gwblhau | Mae'r Tîm Perfformiad a Gwella a rheolwyr gwasanaeth wedi gwneud gwaith sylweddol i ddiwygio'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n eistedd o dan y Cynllun Corfforaethol, gan ddefnyddio unrhyw ddata meincnod addas o ffynonellau a gyhoeddwyd yn genedlaethol, gan gynnwys offeryn Proffil Perfformiad Awdurdod Lleol Data Cymru. Mae'r fframwaith newydd wedi ffurfio sail yr adroddiad hwn, a byddwn yn parhau i'w lunio yn ôl yr angen trwy ein proses Hunanasesu Perfformiad barhaus, gan gadw'r fframwaith yn fyw fel dogfen waith ac yn cael ei adolygu'n gyson. |

## 6.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

### 6.3.1. Cynllunio Corfforaethol

Mae Cynllunio Corfforaethol yn ymwneud â sut rydym yn gosod ac yn gwneud trefniadau i gyflawni ein hamcanion strategol. Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.1.1. Y Cynllun Corfforaethol

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi diwygio ein Cynllun Corfforaethol i'n helpu i fynd i'r afael â heriau'r hinsawdd ariannol bresennol. Mae'n canolbwyntio ar gynnal

sefydlogrwydd ariannol y Cyngor, sy’n hanfodol i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau i gymunedau a chyflawni ein Hamcanion Lles.

Er bod y cyntaf o'n pum nod allweddol yn canolbwyntio'n glir ar wydnwch ariannol y cyngor, mae pedwar yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf a all ysgogi newid cadarnhaol a datblygiad cynaliadwy yn y gymuned. Ystyriwyd y cynllun diwygiedig gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet, cyn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror. Am ragor o wybodaeth, ewch i Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### 6.3.1.2. Trefniadau Democrataidd

Yn yr hydref, gwnaed dau benodiad newydd i'r Cabinet, gyda'r Arweinydd yn croesawu'r Cynghorydd Dilwyn Roberts fel yr Aelod Cabinet newydd ei benodi dros Ddiwylliant, Llywodraethu a TG; a'r Cynghorydd Cathy Augustine fel yr Aelod Cabinet newydd Plant, Teuluoedd a Diogelu. Diolchwyd i'r Cynghorwyr Aaron Wynne a Liz Roberts am eu cyfraniadau blaenorol a'u gwaith caled yn y rolau priodol. Ym mis Rhagfyr, penodwyd y Cynghorydd Liz Roberts yn aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Hefyd ym mis Rhagfyr, penodwyd Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau; a cheisiwyd cymeradwyaeth ar gyfer newidiadau bach a chanlyniadol i'r cyfansoddiad yn ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Datblygu (yn deillio o Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 newydd), a newidiadau yng nghyfrifoldebau portffolio aelodau'r Cabinet.

Ym mis Ionawr, cymeradwyodd y Cyngor drefniadau ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gogledd Cymru ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig; Ym mis Hydref ac ym mis Chwefror, penododd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau gynrychiolydd i'r Bwrdd Prosiect Tai Fforddiadwy ac Ansawdd Tai, Addasiadau a Chaffaeliadau, ac i'r Panel Ceisiadau Benthyciadau Ysgol; ac ym mis Tachwedd ac Ionawr, gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle benodiadau i leoedd gwag diweddar ar y Bwrdd Her Hinsawdd a'r Bwrdd Rhaglen Isadeiledd.

Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth wedi arwain at gychwyn y broses o gael gwared â phwnc cwricwlwm sylfaenol ‘Addysg Grefyddol’ yn raddol, a’i ddisodli â phwnc newydd o’r enw ‘Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg’. O ganlyniad, mae'n ofynnol i ni ffurfio cyngor ymgynghorol sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Enw’r corff ymgynghorol presennol yw’r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

(CYSAG). O ystyried y newidiadau i enw’r pwnc, caiff yr acronym CYSAG (neu SACRE yn Saesneg) ei newid i CYS(AG) (neu SAC(RE)) nes bydd y pwnc Addysg Grefyddol wedi dod i ben yn ystod haf 2027. Mae’r newidiadau’n cynnwys sefydlu cyswllt rhwng cynrychiolaeth y cyngor ar CYSAG a gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau. Amlygodd adroddiad i'r Cyngor, a gymeradwywyd ym mis Ionawr, fod cydweithio'n parhau rhwng CYS(AG) a Chyngor yr Ifanc i gasglu barn pobl ifanc ynghylch addysgu a dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

#### 6.3.1.3. Adroddiad Archwilio Cymru: Llywodraethu Parciau Cenedlaethol

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o Lywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2023, gan wneud un argymhelliad ynghylch atebolrwydd aelodau penodedig y bwrdd.  Cyflwynwyd yr adroddiad a'r cynllun gweithredu ymatebol i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Ionawr.  Nodwyd bod gweithdrefnau ar waith i aelodau a oedd yn gynrychiolwyr ar rai cyrff allanol roi adborth i'r Cabinet bob chwe mis, ac y byddai'r gweithdrefnau hyn yn cael eu tynhau.

### 6.3.2. Cynllunio Ariannol

Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a’n gwariant.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.2.1. Datganiad Cyfrifon 2023 i 2024

Mae gan bob cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifyddu cymeradwy, ac yn adrodd ar ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys trafodion yn ystod y flwyddyn honno. Nododd profion archwilio nifer o welliannau ond ni effeithiodd yr un o'r addasiadau ar ein halldro refeniw ar gyfer 2023 i 2024.  Cymeradwywyd crynodeb o'r gwelliannau a'r Datganiad Cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2023 i 2024 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd.

#### 6.3.2.2. Rheoli Cyfalaf a’r Trysorlys

Cyflwynir diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Reoli’r Trysorlys. Ym mis Chwefror, adroddwyd bod benthyca allanol wedi gostwng £0.6 miliwn (o £203.3 miliwn i £202.7 miliwn) yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2024; a bu

gostyngiad o £9.6 miliwn mewn buddsoddiadau (o £27.6 miliwn i £18.0 miliwn) yn ystod yr un cyfnod.

Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ar y gweithgaredd ariannol sydd wedi digwydd ar y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Ym mis Tachwedd a mis Chwefror, ystyriodd y Cabinet ddiweddariadau ar gynnydd prosiectau cyfalaf parhaus ac unrhyw addasiadau sydd eu hangen oherwydd newidiadau mewn prosiectau neu gyllid.

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, adolygodd y Cabinet y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025 i 2026 yn dilyn Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru, a oedd yn nodi cynnydd o 3.7% mewn cyllid – islaw cyfartaledd Cymru o 4.3%.  Cafodd y rhaglen gyfalaf a argymhellwyd o £16.025m (net o gyllid grant penodol), sy'n cynnwys yr ymrwymiad a gytunwyd yn flaenorol o £1.655m, ei chymeradwyo wedyn yn y Cyngor ym mis Chwefror.

Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025 i 2026 gan y Cyngor hefyd.

### 6.3.3. Rheoli Perfformiad

Mae rheoli perfformiad yn cyfeirio at y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud gan fynd ati i annog her a chyfranogiad gweithredol gan bob rhan o'r sefydliad a'n preswylwyr.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.3.1. Hunanasesiad Perfformiad

Ym mis Hydref, cwblhaodd ein Hadroddiad Hunanasesiad Perfformiad ar gyfer 2023 i 2024 ei gwrs drwy'r broses ddemocrataidd, gan dderbyn adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet, cyn ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor. Nododd yr adroddiad chwe cham gwella, ac mae diweddariadau arnynt wedi'u cynnwys mewn Adroddiadau Hunanasesiad Perfformiad dilynol, gan gynnwys yr un hon.

Cyflwynwyd ein Hadroddiad Hunanasesiad Perfformiad ar gyfer Ebrill i Medi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, ac yn olaf i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Chwefror.  Ni chyflwynwyd unrhyw argymhellion newydd ar gyfer gwella, a chafodd yr adroddiad ganmoliaeth am dynnu sylw at y gwaith cadarnhaol mawr y mae'r cyngor a'i staff yn ei wneud.

Yr adroddiad Ebrill i Medi oedd y cyntaf o dair dogfen sy'n ffurfio ein hunanasesiad blynyddol o berfformiad yn erbyn ein swyddogaethau ar gyfer 2024 i 2025. Mae'r adroddiad presennol hwn (sy'n cwmpasu Hydref i Fawrth) a'r crynodeb gweithredol cysylltiedig yn cwblhau'r set. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi cwblhau ein symudiad i adrodd perfformiad corfforaethol mwy amserol, gyda'n hadroddiadau diwedd blwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r ddemocratiaeth ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, yn hytrach na mis Medi a mis Hydref. Bydd ein hadroddiadau canol blwyddyn bellach yn dod ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, yn hytrach na mis Chwefror neu fis Mawrth. Rydym hefyd o fewn yr adroddiad hwn wedi dechrau cofnodi gweithgaredd rheoleiddio a chynnydd yn ystod y flwyddyn i roi sicrwydd ynghylch rheoli a monitro argymhellion archwilio a symleiddio nifer yr adroddiadau a gynhyrchwn (gweler atodiad 3).

### 6.3.3.2. Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023 i 2024

Cyflwynwyd ein hadroddiad blynyddol ar Gonwy Gynhwysol, ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref, cyn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb, yn ogystal â'r camau a gymerwyd mewn perthynas â Siarter Gwrth-hiliaeth UNSAIN. Tynnodd sylw at arfer da sy'n digwydd ar draws y sefydliad; fodd bynnag, fel cyngor rydym yn cydnabod bod gennym lawer o waith i'w wneud i sicrhau bod ein gweithleoedd a'n gwasanaethau yn deg ac yn gynhwysol i bawb. Rydym wedi dechrau ar hyn gyda rhai o’r hyfforddiant yr ydym wedi’i gyflwyno, ond mae llawer mwy i’w wneud. Wrth i ni adeiladu capasiti, byddwn yn cynnal adolygiad gwaelodlin o’n hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn adolygu ein polisïau, arferion a systemau i wneud yn siŵr eu bod yn deg i bawb.

### 6.3.3.3. Diweddariadau Gweithgareddau Rheoleiddio

Cyflwynwyd diweddariadau ar ein cynnydd yn erbyn argymhellion rheoleiddio allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd, gan roi sicrwydd bod camau y cytunwyd arnynt yn cael eu monitro, eu datblygu a'u hadrodd yn ddigonol. Mewn ymdrech i symleiddio nifer yr adroddiadau a gymerir drwy ddemocratiaeth, mae ein hadroddiad cydymffurfio arferol bellach wedi'i atodi i'r adroddiad hwn fel y gellir gweld yr holl wybodaeth allweddol am berfformiad mewn un lle.

### 6.3.3.4. Archwilio Mewnol

Ym mis Tachwedd a Chwefror, cyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol a Chaffael ddiweddariadau ar berfformiad Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr roedd Archwilio Mewnol wedi cwblhau 39 o archwiliadau, a oedd yn cynnwys 3 a gariwyd ymlaen o 2023 i 2024, 7 adroddiad dilynol, gwaith Menter Twyll Genedlaethol, 1 Ymchwiliad arbennig, a 6 Chyfrifon Terfynol Contract.  Hyd yn hyn, dychwelodd 15 adroddiad sgôr Sicrwydd Uchel, roedd chwech yn Foddhaol, a thri o Sicrwydd cyfyngedig.  Ni chafodd adroddiadau eu dychwelyd gyda chyfradd Dim Sicrwydd.

Hefyd, derbyniodd y pwyllgor ym mis Chwefror yr Hunanasesiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2024 i 2025, a roddodd sicrwydd bod y cyngor yn cydymffurfio'n llawn yn erbyn 99.6% o'r 305 o ofynion unigol, gyda dim ond un maes o gydymffurfiaeth rhannol.  Mae hyn yn ymwneud â gwrthrychedd ac annibyniaeth Pennaeth Archwilio Mewnol a Chaffael wrth wneud dyfarniadau dros faes y maent yn ei reoli'n weithredol – h.y. caffael, cwynion a llywodraethu gwybodaeth.  Fodd bynnag, darperir gwrthrychedd ac annibyniaeth drwy ddirprwyo rheolaeth weithredol y Gwasanaeth i'r Rheolwr Archwilio. Caiff unrhyw waith o'r fath ei oruchwylio ac adroddiadau eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau. Mae'r mathau hyn o drefniadau'n gyffredin ledled Cymru ac rydym yn gyfforddus bod y trefniadau hyn yn darparu digon o ragofalon.

### 6.3.3.5. Adroddiadau Pwyllgor Blynyddol

Cyflwynwyd ein Hadroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau i'w ystyried, ac wedi hynny i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Hydref. Ystyriwyd 106 o adroddiadau ar draws 42 o gyfarfodydd, gan wneud 133 o argymhellion i'r Cabinet neu'r Cyngor a galw dau benderfyniad i mewn yn ffurfiol. Datblygwyd 27 o bolisïau, ac ystyriwyd 36 o adroddiadau monitro.  Cyflwynodd yr adroddiad hefyd uchafbwyntiau o'r ymarfer Hunanasesu Craffu a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024.  Ar y cyfan, cydnabuwyd gwerth Craffu, ond mae aelodau'n awyddus i archwilio opsiynau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau a rhannu arferion gorau.  Mae gweithgor wrthi'n adolygu ein trefniadau craffu a bydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor yn yr haf.

### 6.3.3.6. Canmoliaethau a Chwynion

Ym mis Hydref, ystyriodd y Cabinet Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r llythyr yn nodi bod yr Ombwdsmon wedi derbyn 36 o gwynion am Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod 2023 i 2024, ac wedi cau 37 (rhai cwynion yn

cael eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol). Nodir bod un argymhelliad yn weddill i weithredu arno. Ystyriwyd ein perfformiad cyffredinol fel un ffafriol o'i gymharu ag awdurdodau eraill, ac nid ydym wedi cael unrhyw ymyriadau gan yr Ombwdsmon. Cadarnhawyd yn ystod y cyfarfod fod gwaith trawsnewid parhaus a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch trin cwynion a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

#### 6.3.3.7. Safonau Llyfrgelloedd

Ym mis Ionawr, derbyniodd y [Cabinet] ein ffurflen flynyddol yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yn ystod 2023 i 2024, bodlonodd Conwy bob un o'r 13 hawl craidd yn llawn. O'r 7 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, mae Conwy wedi cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol. Y dangosydd oedd wedi'i gyflawni'n rhannol oedd staffio a chymwysterau proffesiynol, gan na fodlonwyd staff y pen a staff cymwys y pen. Ar y cyfan, canmolodd Llywodraeth Cymru ein perfformiad mewn sawl maes, gan gynnwys darpariaeth iaith Gymraeg, ymweliadau rhithiol a mynychu hyfforddiant ffurfiol. Mae'r buddsoddiad parhaus mewn stoc i blant a'r cynnydd mewn adnoddau i blant yn nodweddion cadarnhaol a nodwyd. Fodd bynnag, rydym wedi profi gostyngiad sylweddol i'r gronfa lyfrau eleni ac rydym yn wynebu heriau o ran capasiti staff. Mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd y sefyllfa'n gwella yn y dyfodol agos gan fod angen i ni gydbwyso oriau agor a meysydd darparu gwasanaethau â chyllidebau sy'n lleihau.

### 6.3.4. Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull rydym wedi'i gynllunio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r cyngor. Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.4.1. Cofrestrau Risg a Materion Corfforaethol

Diweddarwyd y Cofrestrau Risg a Materion Corfforaethol a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn eu cymeradwyo gan y [Cabinet] ym mis Tachwedd. Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o'r newidiadau allweddol a oedd yn bennaf yn fach, gydag un mater yn ymwneud â chapasiti gorfodi amgylcheddol yn cael ei leihau.

#### 6.3.4.2. Gweithgaredd Gwella: Fframwaith Rheoli Risg

Gan ragweld adolygiad sydd ar y gweill o ddull y cyngor o reoli risg corfforaethol, pan gyflwynwyd y cofrestrau risgiau a materion corfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd, gwahoddwyd aelodau etholedig i roi adborth ar yr adroddiadau presennol. Cydnabuwyd bod y cofrestrau yn fawr iawn a gellid eu symleiddio i gefnogi trafodaethau strategol yn well. Ers hynny, mae'r Tîm Perfformiad a Gwella wedi bod yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n dull o ymdrin â risgiau a materion corfforaethol, a bydd yn cyflwyno dull diwygiedig o ymdrin â democratiaeth yn yr haf.  Gan aros am ganlyniad hyn, bydd ein Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei ddiweddaru, gyda chymeradwyaeth ddemocrataidd, a bydd y newidiadau'n cael eu rhaeadru i wasanaethau.

### 6.3.5. Cynllunio’r Gweithlu

Cynllunio’r gweithlu yw’r broses a ddefnyddir gennym i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a’r sgiliau - rŵan ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.5.1. Polisi Tâl

Rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo ein datganiad Polisi Tâl cyn pob blwyddyn ariannol a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Ym mis Chwefror, ceisiodd yr Aelod Cabinet dros Archwilio, Polisi a Pherfformiad gymeradwyaeth ar gyfer y Datganiad Polisi Tâl Lleol ar gyfer 2025 i 2026.  Nodwyd bod adolygiadau cyflog blynyddol ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion wedi'u negodi'n genedlaethol fel rhan o drafodaethau cyflog y Cyngor Cydweithredol Cenedlaethol (NJC), a bod cyflog ar gyfer staff addysgu addysg hefyd wedi'i osod yn genedlaethol.  Cymeradwywyd y polisi gan y Cyngor, gan gytuno hefyd y dylid ystyried amseriad priodol adolygiad o gyflog Prif Swyddogion yn ystod 2025 i 2026.

#### 6.3.5.2. Adroddiadau Monitro Cyflogaeth

Ym mis Hydref, cyflwynwyd Adroddiad Monitro Cyflogaeth ar gyfer 2023 i 2024 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Mae'r adroddiad yn giplun o ddata cyflogaeth ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer ein staff parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am recriwtio, hyfforddi, disgyblu, cwynion, ac ystadegau gadael. Mae’r uchafbwyntiau’n cynnwys:

- Proffil gweithlu rhywedd cyffredinol yr Awdurdod yw 72% o ferched a 28% o wrywod.
- Mae 67% o'r gweithlu parhaol a chyfnod penodol yn y grwpiau oedran 25-34 (16%), tra bod 29% yn 55 oed a hŷn.
- Mae 88% o'r holl rolau rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) yn parhau i gael eu dal gan weithwyr benywaidd. Mae rolau achlysurol hefyd yn cael eu llenwi'n bennaf gan staff benywaidd, sef 78%.
- Rydym wedi gwella ein data proffil gweithlu, gyda gwaith pellach wedi'i gynllunio i wella'r hyn a gasglwn.
- Cynnydd yng nghyfran y staff benywaidd mewn ystodau cyflog uwch.
- Cynnydd bach yn nifer y pennau a'r rolau o'i gymharu â'r llynedd, wedi'i briodoli i ddod â rhywfaint o ddarpariaeth gwasanaeth yn fewnol, lleihau nifer y gweithwyr asiantaeth, a chynnydd yn nifer y swyddi tymor penodol a ariennir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Gostyngiad bach yn nifer y rhai sy'n gadael o'i gymharu â'r llynedd.

Croesawodd y Cabinet yr Adroddiad Monitro Cyflogaeth ar gyfer 2023 i 2024 a'i gymeradwyo i'w gyhoeddi. Nododd y Prif Weithredwr ei bod yn parhau i fod yn her recriwtio barhaus nad oedd cyflogau llywodraeth leol wedi dal i fyny â sectorau eraill.

### 6.3.5.3. Polisi Gwrth-Aflonyddu

Yn ystod 2024, fe wnaethom adolygu ein Polisi Gwrth-Aflonyddu i adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ym mis Hydref. Y newid sylweddol i'r ddeddfwriaeth yw bod dyletswydd ragweithiol bellach arnom ni i atal aflonyddu rhywiol ar ein staff. Wrth adolygu'r polisi, roeddem yn teimlo ei bod yn briodol peidio â chael polisi gwrth-aflonyddu rhywiol ar wahân a chymhwyso'r un safonau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig sy'n dod o fewn y diffiniad o aflonyddu. Mae hyn yn sicrhau bod y ffocws ar gefnogaeth a lles i'r rhai dan sylw yn cael ei gymhwyso i bob nodwedd warchodedig. Croesawodd Aelodau'r Cabinet y polisi ym mis Tachwedd, a chymeradwyo y byddai'r un safonau'n cael eu cymhwyso i bob nodwedd ar draws gweithlu'r Cyngor.

### 6.3.5.4. Partneriaeth Gymdeithasol

Cynhaliom gyfarfod ar y cyd rhwng rheolwyr ac undebau llafur ym mis Tachwedd gyda'r holl 8 undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr rheolwyr a'r Arweinydd. Fe wnaethom archwilio beth mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol yn ei olygu i ni fel cyngor a

chanolbwyntio ar feysydd trafod penodol, gan gynnwys safonau ymddygiad a disgwyliadau ymgysylltu; asesu cryfderau a gwendidau cyfarfodydd ymgynghori presennol, aelodaeth a sut y gellir eu gwella; ac Amser Cyfleusterau ac a oes angen cytundeb ffurfiol o hyd.

Yn ystod cyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol, rhannwyd dogfen gryno o gyfarfod mis Tachwedd. Trafodwyd yr ymddygiadau dymunol a nodwyd o'r gweithdy, gyda'r undebau llafur yn awgrymu y dylid integreiddio'r rhain hefyd i'r broses recriwtio a'u defnyddio i ddiweddaru'r Llyfryn Parch. Yn yr un cyfarfod, rhannwyd hefyd Amcanion Lles drafft ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig, a cheisiwyd mewnbwn gan undebau llafur ar eu cyfer. Yn olaf, rhannwyd ein Hadroddiad Hunanasesu Perfformiad chwe misol (yr ail adroddiad perfformiad yr ydym wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor yn y cyfnod hwn), a darparwyd adborth am ddiffyg cyfranogiad undebau llafur yn ystod y digwyddiad diweddar lle byrstiodd y brif bibell ddŵr. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd y byddem yn ystyried y dysgu hwn fel sefydliad, ond pwysleisiodd ei fod yn sefyllfa sy'n symud yn gyflym, nad oedd ei maint yn glir ar y dechrau, ac roeddem yn dibynnu ar Dŵr Cymru am wybodaeth. Cydnabu'r Prif Weithredwr hefyd waith rhagorol y staff yn ystod yr argyfwng a diolchodd am eu hymdrechion.

Mae gwaith wedi'i gynllunio i adolygu'r mecanweithiau ar gyfer cyfarfod ag undebau llafur a chodi eitemau ar raglenni pwyllgorau, yn ogystal â sefydlu trefniant mwy ffurfiol o amgylch Amser Cyfleusterau. Mae Offeryn Asesu Partneriaeth Gymdeithasol newydd wedi'i ddarparu'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn siarad ag undebau llafur ynghylch sut yr ydym am ddefnyddio'r offeryn hwnnw i sefydlu llinell sylfaen, gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun gweithredu i ddatblygu ein gwaith Partneriaeth Gymdeithasol ymhellach ar gyfer y dyfodol. Yn unol â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, rydym wrthi'n llunio ein hadroddiad blynyddol cyntaf, a fydd yn cael ei gytuno trwy'r broses ddemocrataidd a'i gyhoeddi ar ein gwefan maes o law.

## 6.3.6. Rheoli Asedau

Mae’r term asedau yn cyfeirio at ein rheolaeth o bortffolio’r ystâd (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy’n eiddo i ni/neu’n cael eu rheoli gennym) ac asedau digidol. Isod mae diweddariadau ychwanegol ar lywodraethu ein hasedau.

### 6.3.6.1. Trosglwyddo Asedau

Rydym wedi parhau i ddangos dull rhagweithiol o reoli a throsglwyddo ein hasedau mewn partneriaeth â'n cymunedau. Ym mis Ionawr, cymeradwyodd y Cabinet brydles 100

mlynedd ar hen Ganolfan Ieuenctid Abergele i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Abergele, gyda'r adeilad i'w ddefnyddio fel Canolbwynt Cymunedol gyda'i gaffi cymunedol ei hun.

Mewn cyfarfodydd ym mis Rhagfyr a mis Chwefror, cytunodd y Cabinet i roi prydles ar dir y Trac Pwmp ym Mharc Pentre Mawr yn Abergele, ar delerau ac amodau a gymeradwywyd gan Brisiwr y Sir a Rheolwr Asedau. Hysbysebwyd tir dros ben a nodwyd ar y safle trwy Hysbysiad Cyhoeddus, ac oherwydd nad oedd unrhyw wrthwynebiadau, prydleswyd y tir i Gwmni Buddiant Cymunedol at ddiben adeiladu cyfleuster trac pwmpio i hyrwyddo hamdden egnïol.

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo caffael tir ym Mhont y Soldiwr, Betws-y-Coed i alluogi cynllun Pont y Soldiwr i fwrw ymlaen, ac wedi cymeradwyo gwaredu tir yn y lleoliadau canlynol:

- Telford Lodge, Benarth Road, Conwy
- Hen Ysgol Nant y Coed
- Hen Ysgoldy Gwytherin
- Hen Swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, Abergele
- Cyfleusterau Cyhoeddus Ffordd y Twyni, Towyn
- Tir Parcio yn Ffordd Glan y Môr, Abergele
- Tir yn Stryd y Capel, Mochdre

Mae'r Cabinet hefyd wedi ymrwymo i fuddiant prydles 5 mlynedd yn Roslyn, Gerddi Sylva, Craig y Don (a elwir yn Brosiect Gerddi Sylva).

## 6.3.7. Caffael

Caffael yw'r broses y mae cynghorau yn ei defnyddio i fodloni ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

### 6.3.7.1. Strategaeth Gaffael

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau adroddiad cynnydd ar ein darpariaeth o'r Strategaeth Gaffael Gorfforaethol 2023 i 2028. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed gan ein

Gwasanaeth Caffael yn ystod 2023 i 2024. Mae chwe maes blaenoriaeth sy'n sail i'n gweithgaredd caffael wedi'u nodi:

- Gwerth am arian wrth gaffael yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau. g
- Hyrwyddo mwy o werth cymdeithasol a buddion cymunedol trwy ein gweithgarwch caffael
- Cefnogi ein heconomïau lleol trwy wneud caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol a sefydliadau'r trydydd sector
- Hyrwyddo safonau moesegol a diogelu ymysg ein cyflenwyr
- Cyfrannu at ostwng allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi fel rhan o Gynllun Datgarboneiddio Conwy
- Sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethu ar draws yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad byr ar bob blaenoriaeth a daeth i'r casgliad bod y cyngor yn gwneud cynnydd da. Bydd gweithrediad parhaus ei gynlluniau gweithredu yn cefnogi datblygiad parhaus mewn caffael.

### 6.3.7.1. Contractau Byw â Chymorth a Gofal Cymdeithasol

Yn ystod mis Rhagfyr a Chwefror, dyfarnodd y Cabinet ddau gontract Byw â Chymorth. Dyfarnwyd contract gofal cymdeithasol yn ymwneud â'n gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu ym mis Chwefror hefyd.

## 7. Camau Gwella

Trwy gydol y penodau uchod yn yr adroddiad hwn rydym wedi darparu naratif ar gamau gwella yr ydym yn gweithio arnyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio ar y rhain dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth yr ydym yn eu hwynebu. Lle mae gwaith yn mynd rhagddo byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd yn y meysydd hynny trwy rifynnau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol; yn ogystal â thrwy ein proses adrodd ar risgiau corfforaethol sy'n cynnwys y meysydd mwyaf sylweddol o bwysau sydd arnom ac yn cofnodi'r camau yr ydym yn eu cymryd.

Mae'r camau gwella ychwanegol canlynol wedi'u nodi trwy gynhyrchu'r adroddiad hwn:

1. Canolbwyntio ar gryfhau pecynnau cymorth rheolwyr atebol a chefnogaeth gyffredinol i les staff i wella presenoldeb staff a lleihau absenoldeb.

2. Gweithredu proses arolwg staff newydd.

3. Trin cwynion a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Mae diweddariadau ar gamau gwella a nodwyd yn flaenorol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn uchod, a byddwn hefyd yn parhau i gynnwys unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn ystod y flwyddyn o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth a gwaith rheoleiddio allanol.

## 8. Cloi

Yn dilyn hunanwerthusiad cynhwysfawr o'n perfformiad a'n penderfyniadau democrataidd, rydym yn falch o gadarnhau bod y cyngor yn parhau i fod yn effeithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau. Rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol, ac mae gennym drefniadau cadarn ar waith i sicrhau perfformiad uchel. Nod yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at ein cyflawniadau dros y chwe mis diwethaf, gan ddangos ein hymrwymiad i gyflawni ein hamcanion a'n swyddogaethau allweddol, er gwaethaf yr amodau ariannol heriol. Wrth i ni gloi'r adroddiad hwn, rydym yn estyn ein diolch o galon i'n staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth ddarparu gwasanaethau eithriadol i'n cymunedau.